**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

# Gwneud yn Fawr o Ddigwyddiadau Chwaraeon Mawr yng Nghymru

Mehefin 2010

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae copi electronig o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8149
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: culture.committee@wales.gsi.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

# Gwneud yn Fawr o Ddigwyddiadau Chwaraeon Mawr yng Nghymru

Mehefin 2010

## Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

Prif swyddogaeth pwyllgorau craffu yw archwilio, o fewn eu cylch gorchwyl, wariant, gweinyddiaeth a pholisïau'r llywodraeth a chyrff cyhoeddus cysylltiedig.

Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn cynnwys:

-tai;
-diogelwch Cymunedol;
-cynhwysiant cymunedol gan gynnwys Cymunedau yn Gyntaf a'r Cynllun Gofodol;
-y Gymraeg, chwaraeon a diwylliant.

## Pwerau

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mehefin 2007 yn un o bwyllgorau craffu'r Cynulliad. Rhestrir ei bwerau yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn enwedig yn SO 12. Mae'r rhain ar gael yn **www.assemblywales.org**

## Aelodau'r Pwyllgor



**Sandy Mewies (Cadeirydd)**
Delyn
Llafur



**Mohammad Asghar**
Dwyrain De Cymru
Plaid Geidwadol Cymru



**Eleanor Burnham**
Gogledd Cymru
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru



**Alun Davies**
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Llafur



**Mark Isherwood**
Gogledd Cymru
Plaid Geidwadol Cymru



**Bethan Jenkins**
Gorllewin De Cymru
Plaid Cymru



**Dai Lloyd**
Gorllewin De Cymru
Plaid Cymru



**Lynne Neagle**
Torfaen
Llafur



**Joyce Watson**
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Llafur

# Cynnwys


**Rhagair y Cadeirydd** ..... **5**

**Argymhellion y Pwyllgor** ..... **7**

**Rhagymadrodd** ..... **9**

Cylch Gorchwyl ..... 10

Pam oeddem am edrych ar y cymorth y mae Llywodraeth Cymru'n ei roi i ddigwyddiadau chwaraeon mawr? ..... 10

Beth yw 'digwyddiadau chwaraeon mawr?' ..... 12

**Y Cefndir** ..... **15**

**Materion Allweddol** ..... **18**

**1. Y potensial i achosi newid cadarnhaol** ..... **19**

Cynyddu cyfranogiad ..... 19

Creu manteision economaidd, yn cynnwys twristiaeth ..... 22

Galluogi adfywio rhanbarthol ..... 25

Galluogi'r sector gwirfoddol i godi arian ..... 26

**2. Yr angen am strategaeth digwyddiadau mawr yng Nghymru.** **28**

Yr angen am strategaeth digwyddiadau mawr ..... 28

Bod yn fodd i ddatblygu calendr tymor hir, ond hyblyg, o ddigwyddiadau ..... 29

Galluogi Llywodraeth Cymru ei hun i fod yn rhagweithiol wrth ddatblygu calendr digwyddiadau ..... 31

Darparu manylion am bwrpas penodol rhoi cymorth i ddigwyddiadau ..... 32

Darparu manylion clir am sut y câi digwyddiadau eu cefnogi ..... 38

Galluogi Digwyddiadau Cynaliadwy ..... 41

Sicrhau bod gan ddigwyddiadau eu hunain strategaeth ôl-ddigwyddiad ..... 41

**3. Yr Uned Digwyddiadau Mawr** ..... **43**

**4. Gweithio mewn Partneriaeth** ..... **46**

**5. Cyllido** ..... **49**

Y broses weinyddol o wneud cais am gyllid ..... 49

Eglurder ynglŷn â neilltuo arian yn y gyllideb ..................................... 51

**6. Seilwaith ......................................................................................................... 53**

Cyfleusterau ........................................................................................... 53

Trafnidiaeth a Seilwaith Ategol ........................................................... 54

**Tystion ................................................................................................................ 59**

**Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig ................................................................ 61**

## Rhagair y Cadeirydd

Gall digwyddiadau chwaraeon mawr gyffroi ac ysbrydoli eu cynulleidfaoedd, gan ein gwefreiddio â'u drama a'u cystadleuaeth. Mae digwyddiadau chwaraeon mawr wedi cael eu nodi hefyd gan lawer – yn cynnwys Llywodraeth Cymru – fel cyfrwng i hyrwyddo polisïau. Derbynnir yn gyffredinol fod gan ddigwyddiadau mawr y potensial i gynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon, cynyddu twristiaeth, hybu enw da cenhedloedd a chreu ymwybyddiaeth gyffredinol o elusennau.

O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio arian cyhoeddus ar adegau i helpu gyda'r gwaith o reoli digwyddiadau mawr yng Nghymru. Gyda llai na blwyddyn i fynd cyn Cwpan Ryder a dim ond tair blynedd tan y Gemau Olympaidd, penderfynasom ei bod yn amserol inni gynnal ymchwiliad i gefnogaeth Llywodraeth Cymru i ddigwyddiadau chwaraeon mawr, a'i hymdrechion i wneud yn fawr ohonynt.

Mae'r dystiolaeth a glywsom yn awgrymu bod i ddigwyddiadau chwaraeon mawr y potensial i ddod â manteision sylweddol i'r gwledydd a'r rhanbarthau sy'n eu cynnal. Ond clywsom hefyd bryderon clir nad yw'r manteision hyn yn digwydd yn awtomatig. Er enghraifft, gallai digwyddiad chwaraeon mawr arwain at gynnydd tymor byr yn y niferoedd sy'n cymryd rhan mewn camp neilltuol. Fodd bynnag, dim ond os bydd gwaith a dargedwyd yn ofalus wedi cael ei wneud ymlaen llaw fel bod modd cynnal y diddordeb hwnnw ar ôl y digwyddiad mawr y caiff y lefel hon o gyfranogiad ei chynnal. Nododd ein tystion enghreifftiau o ymarfer da yn y maes hwn, gyda Chwpan Ryder yn cael ei gysylltu â datblygu amrywiaeth eang o brosiectau etifeddol. Ond clywsom hefyd am lawer o enghreifftiau lle nad oedd yr effaith a fyddai'n dilyn o ddigwyddiadau ond wedi cael ei hystyried fel eilbeth, yn hytrach na'i datlygu'n strategol. Am y rheswm hwn, rydym wedi gwneud nifer o argymhellion i Lywodraeth Cymru i wella'r ddarpariaeth cyngor a chymorth i drefnwyr digwyddiadau, er mwyn gwireddu amcanion tymor hwy y llywodraeth.

Un mater allweddol a awgrymwyd gan dystion oedd yr angen i Lywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth Digwyddiadau Mawr. Roeddem yn falch felly, yn dilyn y sesiwn dystiolaeth olaf yn ein hymchwiliad, i Lywodraeth Cymru lansio'i hymgynghoriad ar "Ddigwyddiadau yng Nghymru – Datblygu Strategaeth Digwyddiadau

Mawr i Gymru." Mae'r adroddiad hwn wedi'i fwriadu fel dogfen sy'n sefyll ar ei thraed ei hun a hefyd fel ymateb i ymarferiad ymgynghori Llywodraeth Cymru.

Mae Cymru wedi ymwneud ag amrywiaeth eang o ddigwyddiadau chwaraeon mawr dros y blynyddoedd diwethaf, yn cynnwys gemau cwpan y Gymdeithas Bêl-droed a Gêm Brawf y Lludw. Mae'n amlwg fod manteision i'w cael o ddod â threfnwyr digwyddiadau mawr ynghyd i rannu syniadau am yr hyn sydd wedi gweithio'n dda o'r blaen, a beth a allai fynd yn well yn y dyfodol. Rydym felly wedi galw ar Lywodraeth Cymru i drefnu seminar blynyddol a fyddai'n agored i, er nad o reidrwydd wedi'i gyfyngu i, awdurdodau lleol, y cyfryngau, elusennau, cwmnïau sector preifat, cyrff chwaraeon a darparwyr trafnidiaeth.

Yn olaf, ar ran y Pwyllgor, hoffwn gynnig fy niolch i'r holl unigolion a sefydliadau hynny a gyfrannodd o'u profiad a'u cyngor, a hynny mewn cyfarfodydd pwyllgor ffurfiol a thrwy ymateb i'n galwad am dystiolaeth. Hoffwn hefyd ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant am eu hymrwymiad i'r ymchwiliad hwn.

## Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru wedi'u rhestru isod, yn y drefn y maent yn ymddangos ynddi yn yr Adroddiad hwn. Cyfeiriwch at dudalennau perthnasol yr adroddiad i weld y dystiolaeth ategol a'r casgliadau:

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynllunio'i chalendr cenedlaethol o ddigwyddiadau mawr (yn cynnwys digwyddiadau chwaraeon mawr) ar sail 10-15 mlynedd. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i ddiweddaru'r calendr hwn ar sail hyblyg. **(Tudalen 31)**

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell nad yw Llywodraeth Cymru yn gwerthuso a wnaiff gefnogi digwyddiad chwaraeon mawr ar sail sawl maen prawf polisi gwahanol y bernir y byddai'r digwyddiad yn ei gyflawni. Yn hytrach, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwerthuso a fydd yn cefnogi digwyddiad chwaraeon mawr ai peidio ar sail faint o gynnydd y bydd digwyddiad yn ei wneud yn erbyn ei brif amcan(ion) polisi a, thrwy hynny, werth am arian y digwyddiad. **(Tudalen 37)**

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi neges glir y gall, ac y bydd yn, cefnogi digwyddiadau chwaraeon llai (a allai fod yn rhai 'mawr' yng nghyd-destun eu camp eu hunain) hyd yn oed os nad ydynt yn denu nifer enfawr o wylwyr a chynulleidfaoedd teledu enfawr, os gall digwyddiadau o'r fath gyflawni amcanion polisi penodol o eiddo Llywodraeth Cymru. **(Tudalen 37)**

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro y bydd trefnwyr digwyddiadau mawr yng Nghymru yn gallu manteisio ar ffynhonnell ganolog o arweiniad a chyngor ymarferol ar reoli digwyddiadau mawr. **(Tudalen 40)**

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ceisio cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r Uned Digwyddiadau Mawr a'i rôl. **(Tudalen 41)**

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datgan yn benodol y bydd gofyn i ddigwyddiadau chwaraeon mawr sy'n ceisio cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru gynnwys strategaeth ôl-ddigwyddiad. **(Tudalen 42)**

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod Uned Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru yn hwyluso rhannu arferion da, a gweithio mewn partneriaeth yng nghyswllt rheoli digwyddiadau mawr, drwy seminar blynyddol **(Tudalen 45)**

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud ymrwymiad cyhoeddus y bydd yn ceisio cynnal y lefel bresennol o leiaf o gyllid i'r uned digwyddiadau mawr. **(Tudalen 45)**

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, mewn consortiwm ag awdurdodau lleol, yn datblygu canllawiau ar rôl bosibl awdurdodau lleol yn galluogi digwyddiadau mawr. **(Tudalen 47)**

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried ffyrdd o weithio gyda'r cyfryngau i hyrwyddo agweddau cadarnhaol digwyddiadau chwaraeon mawr a'r ffigyrau amlycaf ym maes chwaraeon. **(Tudalen 48)**

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'i phroses benderfynu, o ran archwilio ceisiadau am gymorth ariannol i gynnal digwyddiadau chwaraeon mawr, yn rheolaidd gyda golwg ar gael gwared ag unrhyw faich biwrocrataidd diangen ar ymgeiswyr. **(Tudalen 50)**

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell y dylai Gweinidogion Cymru barhau i fod yn atebol am benderfynu ar gymorth ariannol, neu ddiffyg cymorth ariannol, i ddigwyddiadau chwaraeon mawr. **(Tudalen 50)**

**Argymhelliad 13.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i hyrwyddo ymwybyddiaeth, yng Nghymru ac yn rhyngwladol, o'r amrywiaeth o gyfleusterau chwaraeon sydd eisoes ar gael yng Nghymru fel lleoliadau posibl i ddigwyddiadau chwaraeon yn y dyfodol. **(Tudalen 53)**

**Argymhelliad 14.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad strategol o hygyrchedd lleoliadau posibl ar gyfer digwyddiadau chwaraeon mawr yng Nghymru, drwy drafnidiaeth gyhoeddus. **(Tudalen 58)**

## Rhagymadrodd

1. Cytunodd y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar gylch gorchwyl er mwyn cynnal ymchwiliad i '*Wneud yn Fawr o Ddigwyddiadau Chwaraeon Mawr'* ym mis Tachwedd 2009.

2. Cymerasom dystiolaeth lafar ar gyfer yr ymchwiliad hwn yn ein Cyfarfodydd Pwyllgor rhwng 14 Ionawr 2010 a 18 Mawrth 2010, ynghyd â thystiolaeth ysgrifenedig.

3. Fel rhan o'r broses cymeradwyom dystiolaeth gan amrywiaeth eang o dystion, yn cynnwys:

- cynrychiolwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru (Llywodraeth Cymru) yn cynnwys y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, a'r Gweinidog dros Dreftadaeth;
- cynrychiolwyr cyrff llywodraethu amryw o chwaraeon gwahanol;
- cynrychiolwyr o gyrff sy'n cael eu noddi gan lywodraeth y Cynulliad;
- cynrychiolwyr asiantaethau gweithredol sy'n perthyn i'r llywodraeth;
- mudiadau sector gwirfoddol sy'n defnyddio digwyddiadau chwaraeon mawr;
- cynrychiolwyr llywodraeth leol;
- arbenigwyr academaidd;
- asiantaethau arolygu;
- cyrff sector preifat; a
- chyrff gwarchod annibynnol a grwpiau ymgyrchu.

4. Rydym yn ddiolchgar iawn i'n holl dystion am gyfrannu i'r ymchwiliad hwn.

## Cylch Gorchwyl

5. Ym mis Tachwedd 2009, cytunasom i archwilio gweithgareddau Llywodraeth Cymru, ei chyrff cyflenwi a sefydliadau cenedlaethol eraill mewn perthynas â digwyddiadau chwaraeon mawr, yn arbennig:

- gweithgareddau sy'n gysylltiedig â Chwpan Ryder, y gwersi a ddysgwyd hyd yma, a sut y gellir eu defnyddio i wneud y mwyaf o fanteision gweithgareddau etifeddol y Gemau Olympaidd;
- strwythur, prosesau cynllunio, cydlyniant a threfniadaeth gweithgareddau ar draws holl feysydd portffolio Llywodraeth Cymru a chysylltiad â'r gymuned ehangach o rhanddeiliaid;
- y cyfyngiadau sy'n wynebu Llywodraeth Cymru wrth wneud y mwyaf o fanteision digwyddiadau mawr fel y Gemau Olympaidd pan gynhelir y digwyddiadau yn y DU, lle y gall unrhyw ddylanwad uniongyrchol gan bolisïau Llywodraeth Cymru fod yn gyfyngedig;
- sut y gallai gwaith Llywodraeth Cymru ar ddigwyddiadau chwaraeon mawr achosi newid cadarnhaol parhaol mewn cymunedau, megis ehangu cyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol, yn enwedig yn y sectorau hynny sydd fel arfer yn wynebu rhwystrau rhag cael mynediad at chwaraeon;
- sut y gall Llywodraeth Cymru annog digwyddiadau chwaraeon mawr i ddod i Gymru.

## Pam oeddem am edrych ar y cymorth y mae Llywodraeth Cymru'n ei roi i ddigwyddiadau chwaraeon mawr?

*"Sport is at its best when athletes inspire us by digging into their deepest reserves of physical and mental strength"*

- Ed Smith, Capten Tîm Criced Middlesex[1]

6. Prin yw'r bobl a fyddai'n dadlau bod digwyddiadau chwaraeon mawr yn gallu cyffroi ac ysbrydoli eu cynulleidfaoedd, gan ennyn rhyfeddod at ddawn Usain Bolt, edmygedd o ddewrder Roger Federer a

---

[1] Erthygl yn The Guardian, 'True Sport is about much more than counting medals,' 20 Awst 2008, http://www.guardian.co.uk/commentisfree/2008/aug/20/britisholympicmedals.britisholympicteam

Rafael Nadal, a balchder ym mhopeth a gyflawnwyd gan Colin Jackson. Ond mae digwyddiadau chwaraeon mawr hefyd wedi cael eu nodi gan lawer, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, fel cyfrwng i hyrwyddo ystod eang o bolisïau. Er enghraifft, mae digwyddiadau mawr wedi cael eu nodi fel cyfrwng i annog ymarfer corff, sy'n dod â manteision iechyd. Yn yr un modd, nodwyd bod iddynt y gallu i gynyddu proffil cenedlaethol a rhyngwladol lle, sy'n gallu arwain at fwy o dwristiaeth ac, yn sgil hynny, dwf economaidd.

7. O ganlyniad, mae'n bosibl rhoi arian cyhoeddus i ddigwyddiadau chwaraeon mawr, gan fod hynny'n fodd i Lywodraeth Cymru ymgyrraedd at ei hamcanion, fel y'u nodwyd yn Cymru'n Un.[2] Dywed ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn ddiweddar ar 'Ddigwyddiadau yng Nghymru – Datblygu Strategaeth Digwyddiadau Mawr i Gymru (2010-2020)':

> "Gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru yw Cymru ffyniannus, hyderus ac allblyg. Mae ein rhaglen ar gyfer gwireddu'r weledigaeth wedi'i chynnwys yn *Cymru'n Un*. Gall digwyddiadau mawr wneud cyfraniad positif iawn tuag at wireddu'r weledigaeth honno, a dod â phob math o fanteision mewn nifer o feysydd polisi."[3]

8. Gan fod ein cylch gwaith yn cynnwys archwilio gwariant, gweinyddiaeth a pholisi'r llywodraeth a chyrff cyhoeddus cysylltiedig mewn perthynas â Chwaraeon, roeddem o'r farn fod y gefnogaeth a roddir gan Lywodraeth Cymru i ddigwyddiadau chwaraeon yn fater priodol inni graffu arno.

9. Gyda llai na blwyddyn i fynd cyn Cwpan Ryder[4], a dim ond tair bynedd tan y Gemau Olympaidd[5], penderfynasom hefyd ei bod yn amserol inni ymgymryd â gweithgaredd o'r fath.

---

[2] 'Cymru'n Un' yw'r cytundeb clymblaid sy'n nodi rhaglen lywodraethu Llywodraeth bresennol Cymru. Llywodraeth Cymru, Cymru'n Un, 27 Mehefin 2007. Mae rhagor o wybodaeth am y cytundeb i'w gweld ar: http://wales.gov.uk/strategy/strategies/onewales/onewalese.pdf?lang=cy

[3] Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru, 'Digwyddiadau yng Nghymru – Datblygu Strategaeth Digwyddiadau Mawr i Gymru (2010-2020),' 7 Ebrill 2010, Paragraff (Para) 3.2.

[4] Cynhelir Cwpan Ryder rhwng 1 Hydref 2010 a 3 Hydref 2010. Gellir cael rhagor o wybodaeth am Gwpan Ryder 2010 ar wefan Cwpan Ryder Cymru, http://www.rydercupwales2010.com/cy/fe/page.asp?n1=3

[5] Cynhelir Gemau Olympaidd 2012 rhwng 27 Gorffennaf 2012 a 12 Awst 2012; a Gemau Paralympaidd 2012 rhwng 29 Awst a 9 Medi 2012. Gellir cael rhagor o wybodaeth ar wefan Llundain 2012, http://www.london2012.com/

10. Teimlem y byddai'r ymchwiliad hwn yn gyfle inni i ymchwilio i'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â Chwpan Ryder, gyda diddordeb arbennig mewn edrych ar waith sy'n anelu at sicrhau bod manteision yn dilyn o ddigwyddiad chwaraeon mawr. Yn arbennig, roeddem am weld a ellid cymhwyso'r gwersi a ddysgir o weithgarwch o'r fath i'r paratoadau ar gyfer y Gemau Olympaidd, a digwyddiadau chwaraeon mawr eraill.

11. Adeg lansio'r ymchwiliad hwn, roeddem yn ymwybodol fod gwaith yn mynd rhagodd yn y maes hwn, er enghraifft drwy *Gynllun Gweithredu Dringo'n Uwch* a'r adroddiad ar yr *Adolygiad o Berfformiad a Rhagoriaeth mewn Chwaraeon*. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymarferiad cysylltu â rhanddeiliaid hefyd gyda'r diwydiant digwyddiadau yng Nghymru (a'r DU) yn gynnar yn 2009.

12. Fodd bynnag, penderfynasom y byddai'r ymchwiliad hwn yn gyfle i gloriannu a yw polisi Llywodraeth Cymru yn gwneud y mwyaf o fanteision posibl y cyfleoedd mawr sydd ar y gorwel yn y dyfodol agos.

13. Ar ôl inni gasglu'r dystiolaeth, ar 7 Ebrill 2010 lansiodd Llywodraeth Cymru hefyd ymgynghoriad ar "Ddigwyddiadau yng Nghymru – Datblygu Strategaeth Digwyddiadau Mawr i Gymru." Croesawyd hynny gennym, ac yr ydym wedi drafftio'r adroddiad hwn fel dogfen sy'n sefyll ar ei thraed ei hun a hefyd fel ymateb i ymarferiad ymgynghori Llywodraeth Cymru.

## Beth yw 'digwyddiadau chwaraeon mawr?'

14. Yn ystod yr ymchwiliad, roeddem yn ymwybodol nad oes un diffiniad o 'ddigwyddiadau chwaraeon mawr'. Yn wir, awgrymodd nifer o dystion y byddai egluro beth a ddeallir gan y term hwn yn hynod o werthfawr, gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, er enghraifft, yn gofyn:

> "what defines an event as being a major one. Is it purely the scale of the event and its potential for attracting a large international audience and global media coverage which is important? What weight is placed on the role the event will play in enhancing the image of Wales and promoting its culture."[6]

15. Rydym felly yn croesawu'r ymgais gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddar i ddiffinio'i dealltwriaeth o'r term hwn. Mae dogfen

---

[6] Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 25

ymgynghori Llywodraeth Cymru, 'Digwyddiadau yng Nghymru: Datblygu Strategaeth Digwyddiadau Mawr i Gymru', yn nodi pedwar categori o ddigwyddiadau a gaiff eu cefnogi gan ei strategaeth, ac sy'n dod o dan bennawd ehangach digwyddiadau mawr:

> **"Digwyddiadau Mawr** – digwyddiadau peripatetig sy'n cael eu diffinio yn ôl eu maint a'u hapêl o ran denu a dylanwadu ar gynulleidfaoedd rhyngwladol mawr a sicrhau sylw sylweddol yn y cyfryngau, yn ogystal â chael impact economaidd a dod â nifer sylweddol o ymwelwyr i'r gyrchfan. Mae modd iddynt gael eu gwylio gan gynulleidfaoedd teledu ledled y byd a denu noddwyr rhyngwladol sylweddol. Gallant gael effaith bositif o ran dylanwadu ar garfanau penodol o'r farchnad a newid agweddau ac ymddygiad. Nid Cymru sy'n "berchen" ar y digwyddiadau rhyngwladol hyn a byddai'n rhaid iddi gael ei dewis fel lleoliad yn erbyn cystadleuaeth ryngwladol. Rhai enghreifftiau o'r math yma o ddigwyddiad yw Gêm Brawf y Lludw, Gêm Derfynol Cwpan Heineken a Gwobrau MOBO (Cerddoriaeth o Darddiad Du).
>
> **"Digwyddiadau Unigryw** – fel arfer, mae'r rhain yn ddigwyddiadau sy'n cael eu hailadrodd ac maent yn hyrwyddo delwedd a hunaniaeth ddiwylliannol Cymru, yn gwella lles pobl sy'n byw yng Nghymru ac yn rhoi profiad o ansawdd uchel i ymwelwyr. Maent naill ai'n unigryw i Gymru neu'n neilltuol Gymreig o ran eu natur, ac maent yn adlewyrchu ein diwylliant, ein traddodiadau a'n gwerthoedd. Mae Digwyddiadau Unigryw llwyddiannus yn gallu parhau i ysbrydoli ac ailddenu eu cynulleidfaoedd. Wrth ddiffinio Digwyddiadau Unigryw, mae'n bwysig i ni wahaniaethu rhwng digwyddiadau brodorol sefydledig fel Gŵyl y Gelli, yr Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod yr Urdd, Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen a Sioe Frenhinol Cymru, a digwyddiadau mwy newydd fel Gŵyl y Dyn Gwyrdd a Wakestock sy'n parhau i ennill eu plwyf ym mywyd diwylliannol Cymru.
>
> **"Mega Ddigwyddiadau** – fel digwyddiadau mawr, mae'r rhain yn ddigwyddiadau peripatetig gydag apêl fyd-eang. Maent yn nodedig gan eu bod fel arfer yn cael eu cynnal yn dilyn prosiectau cyfalaf mawr, ac yn gofyn am adeiladu lleoliadau ac is-adeileddau newydd i'w cefnogi. Mae angen ymdrech sylweddol wrth roi cais at ei gilydd a lefel uchel o adnoddau a

chefnogaeth gan y llywodraeth ar bob cam, o'r cynnig cychwynnol i gyflawni'r digwyddiad. Fel arfer, mae hyn yn golygu creu sefydliad ar wahân, gyda chyllideb wedi'i chlustnodi'n benodol, i reoli'r broses o'i dechrau i'w diwedd. Ymhlith yr enghreifftiau mae Gemau'r Gymanwlad a Chwpan Ryder.

**"Digwyddiadau Twf** – mae'r rhain yn ddigwyddiadau llai gydag ôl troed a ffocws sy'n rhanbarthol, yn lleol neu'n seiliedig ar sector penodol, neu'n ddigwyddiadau newydd uchelgeisiol sydd â photensial i esblygu a thyfu a dod yn Ddigwyddiadau Mawr neu Unigryw i Gymru. Gall y digwyddiadau hyn hefyd weithredu fel cerrig milltir o ran hybu capasiti, profiad a hygrededd Cymru fel cyrchfan, a bod yn rhagflaenydd hynod bwysig ar gyfer cynnal digwyddiadau mawr wedi'u targedu. Bydd y rhain yn cael eu hystyried ar gyfer cefnogaeth. Elfen bwysig o'r gwerth a ychwanegir trwy fuddsoddi yw creu a meithrin digwyddiadau cynhenid, a thrwy hynny gefnogi ymdrechion i ddatblygu diwydiant digwyddiadau cryf a chynaliadwy yng Nghymru. Mae Hanner Marathon Caerdydd yn enghraifft o'r math hwn o ddigwyddiad."[7]

16. Yn arbennig, rydym yn croesawu'r ffaith fod Llywodraeth Cymru yn cynnwys Digwyddiadau Twf a Digwyddiadau Unigryw yn y diffiniad hwn, gan ein bod yn credu y byddai'n werthfawr cefnogi digwyddiadau llai gydag arian cyhoeddus os gallant weithredu fel cyfrwng gwerth am arian i hyrwyddo polisïau'r llywodraeth.

---

[7] Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru, 'Digwyddiadau yng Nghymru – Datblygu Strategaeth Digwyddiadau Mawr i Gymru (2010-2020),' 7 Ebrill 2010, paragraff (Para) 2.2.

## Y Cefndir

17. Law yn llaw ag ymwneud cyson Cymru â chynnal nifer o ddigwyddiadau chwaraeon mawr dros y blynyddoedd diwethaf bu llawer iawn o drafod ar fanteision posibl digwyddiadau o'r fath i hyrwyddo polisïau'r Llywodraeth. Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn edrych ar y datblygiadau polisi sylweddol mewn perthynas â chefnogi digwyddiadau chwaraeon mawr yn y blynyddoedd diwethaf.

18. Ym mis Ionawr 2006, yn ei lythyr cylch gwaith at Gyngor Chwaraeon Cymru, ysgrifennodd Gweinidog Llywodraeth Cymru dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon:

> "I would like to see the Sports Council for Wales' proposals for how we might maximise the potential legacy effects of the London 2012 Olympic Games, particularly on promoting and increasing participation in sport and physical activity amongst young people and developing volunteers."[8]

19. Ym mis Hydref 2008, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Major Events: A Strategic Framework for Event Support.' Nodai'r papur hwn rai o amcanion strategol yr Uned Digwyddiadau Mawr a oedd newydd gael ei sefydlu. Un o'r amcanion hynny oedd ceisio:

> "deliver a sustainable economic, environmental, social and cultural legacy for the people of Wales."[9]

20. Ar 5 Mai 2009 lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar ei gynllun gweithredu arfaethedig, 'Dringo'n Uwch – Creu Cymru Egnïol Cynllun Gweithredu Strategol.' Un o flaenoriaethau'r nod strategol o 'gynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon ymhlith pob rhan o'r boblogaeth' oedd:

> "cynyddu i'r eithaf y cyfleoedd a fydd yn codi o ganlyniad i Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain 2012, a

---

[8] Nodwyd y llythyr cylch gwaith mewn memorandwm a gyflwynwyd gan Gyngor Chwaraeon Cymru, a dyfynnwyd ef yn adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig: 'Potential benefits of the 2012 Olympics and Paralympics for Wales,' 22 Mai 2009, tystiolaeth ysgrifenedig 47, Tudalen 102.

[9] Llywodraeth Cymru, 'Major Events: A Strategic Framework for Event Support,' Hydref 2008, Para 9.

digwyddiadau mawr eraill, er mwyn cynyddu nifer y rheini sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon."[10]

21. Ar yr un pryd â'i ymchwiliad ym mis Mai 2009 i fanteision posibl Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012 i Gymru, roedd y Pwyllgor Materion Cymreig o'r farn:

> "The most obvious benefit to Wales arises from the fact that the Olympic and Paralympic Games in London provide a unique opportunity to generate interest in sport amongst children and young people."[11]

22. Ar 30 Medi 2009, rhyddhaodd Alun Ffred Jones, y Gweinidog dros Dreftadaeth, ddatganiad yn tynnu sylw at gyhoeddi'r Adroddiad Annibynnol ar Berfformiad a Rhagoriaeth mewn Chwaraeon yng Nghymru.[12] Pwrpas yr adolygiad hwn oedd darparu adroddiad annibynnol i Lywodraeth Cymru fel sail i ddatblygu polisi yng nghyswllt Perfformiad a Rhagoriaeth mewn Chwaraeon. Er bod y papur yn ymdrin mwy â rhagoriaeth mewn chwaraeon, cyfeiriwyd rhywfaint at yr etifeddiaeth i fyd chwaraeon, yn arbennig:

- "The potential for local authorities to host and stage sporting events to contribute to performance sport, and to draw a legacy from the London 2012 Games, seems unexploited."[13]
- "Fearful that there is an amount of athletic talent in Wales which is being activated into sport by initiatives staged within schools and local authorities, but which has no longevity in sport because it is not being channelled into the club sector which can retain and develop it."[14]

23. Yn fwyaf diweddar, ar 7 Ebrill 2010, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar 'Ddigwyddiadau yng Nghymru – Datblygu Strategaeth

[10] Llywodraeth Cymru, 'Dringo'n Uwch: Creu Cymru Egnïol. Dogfen ymgynghori ynghylch cynllun gweithredu strategol 5 mlynedd,' Mai 2009, tudalen 18. Cafodd y flaenoriaeth hon ei chyhoeddi'n ddiweddarach, heb ei newid, yn nogfen Llywodraeth Cymru 'Creu Cymru Egnïol,' Rhagfyr 2009, tudalen 49.

[11] Adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig: 'Potential benefits of the 2012 Olympics and Paralympics for Wales,' 22 Mai 2009, Crynodeb, Tudalen 3.

[12] Llywodraeth Cymru, Wharton Consulting, *Performance and Excellence Sport Review, A final report*, Gorffennaf 2009.

[13] Llywodraeth Cymru, Wharton Consulting, *Performance and Excellence Sport Review, A final report*, Gorffennaf 2009, Tudalen 9, Para 1.31.

[14] Llywodraeth Cymru, Wharton Consulting, *Performance and Excellence Sport Review, A final report*, Gorffennaf 2009, Tudalen 37, Para 4.30.

Digwyddiadau Mawr i Gymru (2010-2020).' Dywedai'r cyflwyniad i'r ymgynghoriad hwn fod strategaeth integredig Llywodraeth Cymru yn:

> "disgrifio sut y byddwn yn arwain o ran sefydlu dull mwy cydlynol o weithredu trwy greu fframwaith strategol cryf a fydd yn defnyddio ac yn datblygu sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd yr holl unigolion, grwpiau a sefydliadau sy'n ymwneud â digwyddiadau mawr ar draws y genedl."[15]

---

[15] Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru, 'Digwyddiadau yng Nghymru – Datblygu Strategaeth Digwyddiadau Mawr i Gymru (2010-2020),' 7 Ebrill 2010, Para 1.3.

## Materion Allweddol

24. Ar ôl cynnal ein hymchwiliad, gallwn yn awr ddarparu cyfres o gasgliadau ac argymhellion wedi'u seilio ar dystiolaeth i Lywodraeth y Cynulliad, a chyrff perthnasol eraill. Ceir crynodeb o'n hargymhellion ar dudalennau 8-9.

25. Roedd y tystion yn cytuno'n gyffredinol fod i ddigwyddiadau chwaraeon mawr – yn ddamcaniaethol, o leiaf – y potensial i symud polisi'r Llywodraeth yn ei flaen, a bod gwerth felly i Lywodraeth Cymru benderfynu ar strategaeth o ran darparu cymorth i ddigwyddiadau chwaraeon mawr.

26. Fodd bynnag, roedd pa un a oedd tystiolaeth benodol i ddangos bod digwyddiadau mawr wedi cael effaith yn y gorffennol o ran symud polisi'r Llywodraeth yn ei flaen yn destun dadlau. Roedd y ddeialog hon ynghlwm wrth drafodaeth ehangach ynglŷn â sut y gallai buddsoddi a gweithgarwch gael eu targedu'n fwyaf effeithiol er mwyn gwireddu amcanion cyhoeddus.

27. Wrth ystyried y materion hyn, rydym wedi nodi 6 mater allweddol a ddaeth i'r amlwg yn ystod ein hymchwiliad. Fe'u rhestrir isod:

- y potensial i achosi newid cadarnhaol;
- yr angen am strategaeth digwyddiadau mawr;
- yr Uned Digwyddiadau Mawr;
- Gweithio mewn Partneriaeth;
- Cyllid;
- Seilwaith.

# 1. Y potensial i achosi newid cadarnhaol

28. Awgrymodd ein tystion amryw o feysydd lle gallai digwyddiadau mawr o bosibl achosi newid cadarnhaol, yn cynnwys:

- cynyddu cyfranogiad;
- creu manteision economaidd, yn cynnwys twristiaeth;
- calluogi adfywio rhanbarthol;
- calluogi'r sector gwirfoddol i godi arian.

## Cynyddu cyfranogiad

29. Awgrymodd mwyafrif o'r tystion y gallai digwyddiadau chwaraeon mawr gynyddu cyfranogiad y cyhoedd yn gyffredinol mewn chwaraeon. Er enghraifft, disgrifiodd Cwpan Ryder Cymru fel yr oedd gwaith mewn cysylltiad â Chwpan Ryder Cymru wedi arwain at gynnydd arwyddocaol mewn cyfranogiad ymysg pobl ifanc, menywod a merched.[16] Yn yr un modd, nododd Clwb Criced Morgannwg rôl Gêm Brawf y Lludw 2009 yn ei alluogi i gysylltu â thros 65,000 o blant a phobl ifanc yng Nghymru.[17] Yn fwy cyffredinol, dywedodd Estyn:

> "major events… create interest and demand in locally organised sport and physical activities and raise the profile of minority sports."[18]

30. Yn wir, dywedodd Undeb Hoci Cymru mai un o'r amcanion penodol y tu cefn i'w gais llwyddiannus i gael cynnal twrnamaint Hoci Cenhedloedd Ewrop i ddynion oedd gwella:

> "visibility of hockey in N Wales, increasing participation of young people, creating new and sustainable activity in school aged children and increasing the volunteer base."[19]

31. Haerodd Cyfeiriannu Cymru hefyd fod cynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon (fel cyfeiriannu) "contribute to multi-generational health."[20] Yn yr un modd, dywedodd Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) fod mwy o gyfranogi mewn chwaraeon:

---

[16] Cwpan Ryder Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 07
[17] Clwb Criced Morgannwg, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 22
[18] Estyn, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 09
[19] Undeb Hoci Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 03
[20] Cyfeiriannu Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 21

> "brings many health benefits and diverts people from the 'no where to go, nothing to do' attitude which often leads to anti social behaviour and criminality."[21]

32. Nododd tystion eraill hefyd effaith bosibl digwyddiadau mawr yn cynyddu cyfranogiad mewn cyd-destun cymdeithasol ehangach, gyda mwy o'r cyhoedd yn cael eu hysgogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddol, i helpu gyda'r gwaith o reoli digwyddiadau mawr. Er enghraifft, nododd Cyngor Caerdydd, "holding the UK School Games led to a significant increase in volunteering which built capacity to promote further development,"[22] tra oedd Clwb Criced Carmel yn dadlau y gallai digwyddiadau helpu "to integrate locally-based immigrant minorities through sport."[23]

33. Yn yr un modd, dadleuai Cymdeithas Bêl-droed Cymru y gallai digwyddiadau chwaraeon mawr helpu i integreiddio cymunedau tra amrywiol, gan ddweud:

> "Sport is also a major vehicle in breaking down barriers across communities with different ethnic and religious backgrounds in providing facilities and the occasions where people can work and play together."[24]

34. Fodd bynnag, nododd tystion eraill mai cyfyngedig yw'r dystiolaeth sy'n cysylltu digwyddiadau mawr yn benodol â mwy o gyfranogi. Yn arbennig, nododd Calvin Jones, Darlithydd mewn Economeg yn Ysgol Fusnes Caerdydd:

> "Studies undertaken in support of the 2012 Games have failed to find any link between the Games and participation or activity levels in the host region/country… a lack of data means we cannot be definitive about the existence (or otherwise) of such a link."[25]

35. Yn wir, awgrymodd ffactor gwahanol sy'n sbarduno cyfranogiad mewn chwaraeon, gan ein gwahodd i:

> "Look at the spike in activity in rugby in late 2003 because England won the Rugby World Cup in Australia. That suggests very strongly that, where any participation benefits exist, they

---

[21] ACPO, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 01
[22] Cyngor Caerdydd, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 18
[23] Clwb Criced Carmel, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 27
[24] Cymdeithas Bêl-droed Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 11
[25] Calvin Jones, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 14

> have nothing to do with event hosting at all, but with media coverage and the sporting success of your team."[26]

36. Yn yr un modd, haerai tystiolaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:

> "there is little evidence that major sporting events in themselves have a significant positive effect in… increasing the breadth or depth of sports participation and performance."[27]

37. Awgrymodd Cyngor Chwaraeon Cymru yntau nad yw cynnal digwyddiadau chwaraeon mawr yn cynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon yn awtomatig, gan gytuno bod:

> "much rhetoric but limited evidence that major events impact on participation… The difficulty in isolating the active effect of sporting success or major sporting event discourages rigorous impact studies."[28]

38. Fodd bynnag, awgrymodd Cyngor Chwaraeon Cymru hefyd y gellid cynyddu'r potensial i gael rhagor o bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon drwy weithgareddau wedi'u targedu. Awgrymodd fod cynnydd sylweddol yn y nifer o bobl ifanc a oedd yn chwarae golff, rhwng 2001-2006, wedi cael ei ysgogi gan weithgarwch strategol yn gysylltiedig â Chwpan Ryder. Nododd Cyngor Caerdydd hefyd, tra bo'r "euphoria surrounding Wimbledon is short lived,"[29] y gellid galluogi pobl i gymryd rhan drwy gynnal "low profile community club events at key times to target specific groups."[30]

39. Credwn fod y dystiolaeth a ddaeth i law yn awgrymu bod digwyddiadau chwaraeon yn gallu cynyddu cyfranogiad, er nad ydynt yn gwneud hynny'n awtomatig. Gellir eu gwneud yn fwy tebygol o gael yr effaith honno drwy dargedu strategol a rheoli digwyddiadau mewn ffordd sy'n anelu at gyrraedd y nod hwnnw. Rydym yn cytuno hefyd â sylw Cyngor Caerdydd y gall cyfuniad strategol o ddigwyddiadau, neu un digwyddiad mawr a nifer o weithgareddau cysylltiol yn ei sgil, roi enillion polisi mwy arwyddocaol nag un digwyddiad mawr ar ei ben ei hun.

---

[26] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 28/1/10, Para 141.
[27] Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 25
[28] Cyngor Chwaraeon Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 13, tudalennau 3-4
[29] Cyngor Caerdydd, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 18.
[30] Ibid.

## Creu manteision economaidd, yn cynnwys twristiaeth

40. Soniodd nifer o dystion am y manteision economaidd uniongyrchol y gallai digwyddiadau mawr eu denu, wrth i ymwelwyr fynd i'r digwyddiadau eu hunain a gwario arian mewn gwestai, tai bwyta, ac ati yn ystod eu hymweliad ar gyfer digwyddiad. Er enghraifft, credai Clwb Criced Morgannwg fod Gêm Brawf y Lludw wedi cael "£20m impact on local economy."[31] Yn yr un modd, awgrymodd Undeb Rygbi Cymru fod defnydd cyson o Stadiwm y Mileniwm i gynnal digwyddiadau mawr:

> "Contribute[d] an average £100 million a year into the economy of South East Wales. The Stadium boasts a 74,500 crowd capacity but major events can attract more than double that number of people into the wider region and the capital city of Cardiff itself. The combined spending power of those visitors, particularly in hotels, restaurants, bars and shops, helps to secure some 2,400 full time jobs across South Wales generating a clear benefit to the wider community of Wales. Only a small element of the visitor spend is related to ticket purchases and hospitality offered by the WRUG to the 1 million people who attend the Stadium events each year."[32]

41. Ategwyd y dystiolaeth hon gan sylwadau gan Gymdeithas Lletygarwch Cymru:

> "Cardiff was fortunate that the Millennium Stadium was able to host major events, such as the FA Cup Final, while Wembley Stadium was being rebuilt. Hotels in Cardiff were full for each of these events for two nights, with benefits also to restaurants, bars and retail."[33]

42. Yn yr un modd, haerai Ysgol Fusnes Caerdydd:

> "work that we have done has shown that, for example, the Heineken Cup is one of the best-case scenarios... That resulted in a significant positive benefit of something like £20 million to £25 million for that one event, which is very high for a single-day event, particularly when you contrast that with public sector investment in the event, which was fairly marginal; it was in the tens of thousands of pounds. In terms of returns on

[31] Clwb Criced Morgannwg, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 22
[32] Undeb Rygbi Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 10
[33] Cymdeithas Lletygarwch Prydain, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 23

investment for the public sector, that event was, effectively, a win-win."[34]

43. Ond nododd Ysgol Fusnes Caerdydd hefyd fod effaith economaidd un digwyddiad mawr – o'i chymharu â'r gweithgarwch economaidd mewn dinas drwyddi draw, dros gyfnod estynedig o amser – yn dal yn gymharol fach:

> "we estimated for Cardiff Council a few years ago that the value of the Cardiff economy alone was around £6 billion in value added in 2003. If you compare the £6 billion-turnover of a city in a year with a £25 million or £26 million blip in one part of that year, you are talking about 0.1 per cent or less. You have to bear in mind the scale of the expenditure impacts. If you are talking about a very small area—such as the mountain bike world cup in Scotland, in Fort William, which is a big event with a small economic base within a small locality—then you can start to think about real net additional, marginal benefits that are trackable and might actually change the whole focus of that economy. Even somewhere as relatively small as Cardiff, the biggest events that we hold are not necessarily, in and of themselves, enough to make that change in the longer term."[35]

44. Fodd bynnag, haerodd tystion hefyd y gallai cynnal digwyddiadau mawr gynyddu proffil cenedlaethol, a rhyngwladol, Cymru a lleoliadau penodol yng Nghymru, gan gynyddu potensial twristiaeth i gyrchfannau o'r fath yn y dyfodol drwy hynny. Dadleuwyd bod hyn yn golygu bod iddynt effaith economaidd a oedd yn ymestyn y tu hwnt i'r digwyddiad ei hun. Er enghraifft, dadleuai Cymdeithas Bêl-droed Cymru:

> "major economical benefits are derived by the local communities and the Country which have hosted these events - increased numbers of workers, visitors and spectators at the event and as a long term marketing vehicle to attract greater numbers of tourists to the Country."[36]

45. Yn yr un modd, dywedodd Cwpan Ryder Cymru fod Cwpan Ryder:

> "has been a tool for Newport council to use, and it has been integral in the way that it has been used, and not only the city

[34] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 28/1/10, Para 118.
[35] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 28/1/10, Para 119-120.
[36] Cymdeithas Bêl-droed Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 11

council, but also Newport Unlimited has been using it to promote the city and investment opportunities in Newport on the world stage."[37]

46. Yn wir, tra oedd Gêm Brawf y Lludw wedi cynhyrchu £20 miliwn i'r economi leol, amcangyfrifai Clwb Criced Morgannwg y byddai'r ffigur hwn yn codi yn y tymor hwy i "up to £100m (including repeat visits) for Wales as a whole."[38] Haerai Clwb Criced Morgannwg fod Gêm Brawf y Lludw 2009 wedi newid argraffiadau negyddol o Gymru gynt, ac roedd yn rhagweld y byddai'r newid agwedd hwnnw yn treiddio drwodd gan gynyddu twristiaeth a rhoi hwb economaidd. Yn wir, mae'n werth nodi, pan gafodd y gêm ei dyfarnu i Gymru yn gyntaf, fod sylwadau'r cyfryngau yn feirniadol:

> "To many observers, the prospect of staging an Ashes Test match in Wales may be slightly less appropriate than holding an eisteddfod in Bulgaria."[39]

47. Ond erbyn diwedd y digwyddiad, roedd yr un newyddiadurwyr yn llawer mwy cadarnhaol, gan ei ddisgrifio fel "an unfettered triumph."[40]

48. Fodd bynnag, dadleuai Ysgol Fusnes Caerdydd nad oedd tystiolaeth bendant fod cysylltiad rhwng digwyddiadau chwaraeon mawr a thwf economaidd tymor hwy. Er i lawer o dystion ddadlau y gallai digwyddiadau o'r fath hyrwyddo enw da dinas, ac arwain drwy hynny at gynnydd mewn twristiaeth yn y tymor hwy, dywedodd yr Ysgol Fusnes nad oedd fawr o dystiolaeth gadarn i gadarnhau'r ddamcaniaeth hon, gan nodi:

> "It is not that there are no causal links between events and long-term growth, but it is just that there is no evidence of such links"[41]

49. Yn wir, cytunai Llywodraeth Cymru nad oedd fawr o dystiolaeth i haeru'n bendant fod digwyddiadau mawr yn hyrwyddo cynnydd mewn twristiaeth yn y tymor hwy, a bod angen casglu sylfaen tystiolaeth er mwyn edrych yn fanylach ar gysylltiadau o'r fath:

---

[37] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 11/2/10, Para 39.
[38] Clwb Criced Morgannwg, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 22
[39] Clwb Criced Morgannwg, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 22, yn dyfynnu Stephen Brenkley (The Independent)
[40] Clwb Criced Morgannwg, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 22, yn dyfynnu Stephen Brenkley (The Independent)
[41] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 28/1/10, Para 116.

> "The business school is right in saying that the evidence in the past, internationally, now, has not been everything that it could be. The business school has contributed to an important piece of work led by UK Sport, which has recently launched a new toolkit for assessing events. From now on, and as part of implementing the strategy, we will refer our events to the new toolkit that has been developed. We are confident that that will enable us to compare the impact of various events more effectively and consistently."[42]

50. Credwn fod y dystiolaeth a ddaeth i law yn awgrymu y gall digwyddiadau chwaraeon gyfrannu o bosibl at dwf economaidd mewn ardal, ond mai cyfyngedig yw'r dystiolaeth i haeru hynny'n bendant. Rydym o'r farn fod modd cynyddu'r potensial hwnnw efallai os yw digwyddiad yn canolbwyntio'n strategol ar amcan o'r fath. Rydym hefyd yn cefnogi egwyddor cynigion Llywodraeth Cymru i'w gwneud yn bosibl gwerthuso digwyddiadau mawr mewn ffordd fwy cyson yn y dyfodol, yn cynnwys ystyried eu hethaiff tymor byr a hir ar yr economi leol a'r economi ehangach.

## Galluogi adfywio rhanbarthol

51. Awgrymodd tystion hefyd y gallai digwyddiadau mawr o bosibl fod yn gatalydd o ran adfywio seilwaith, a nododd Estyn "there are potential opportunities to improve areas of economic deprivation through, for example, building development."[43] Yn yr un modd, haerodd Cyngor Chwaraeon Cymru "hosting major events can instigate broader investment into the local infrastructure."[44] Darparwyd enghraifft benodol o adfywio o'r fath gan Glwb Criced Morgannwg, a nododd, o ganlyniad i Gêm Brawf y Lludw 2009, "investment in Sophia Gardens has resulted in state of the art stadium, shortlisted as one of UK's best sporting venues."[45]

52. Fodd bynnag, nodasom hefyd ei bod yn bwysig sicrhau bod y buddsoddi mewn seilwaith yn briodol i anghenion tymor hir ardal, nid dim ond i anghenion tymor byr digwyddiad. Rhybuddiodd Ysgol Fusnes Caerdydd na fyddai seilwaith a ddatblygir er mwyn gallu cynnal digwyddiad mawr o reidrwydd yn briodol i fuddiannau tymor hir ardal, gan nodi:

---

[42] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 18/3/10, Para 65.
[43] Estyn, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 09
[44] Cyngor Chwaraeon Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 13
[45] Clwb Criced Morgannwg, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 22

> "There is an issue about whether the infrastructure you build is appropriate to the needs of the city. In the case of Montreal, it is not, whereas in the case of Barcelona, it certainly was… it is not true to say that these events cannot be important catalysts, but you have to be careful when designing the legacy infrastructure that is appropriate for your region or city."[46]

53. Roeddem yn cytuno â'r haeriad hwn, a chredwn fod cryn werth mewn gwerthuso'r gwaith datblygu seilwaith sy'n gysylltiedig â digwyddiadau mawr o bersbectif tymor hir. Mae i safbwynt o'r fath oblygiadau penodol o ran rhoi cymorth i ddigwyddiadau mawr y gallai fod angen buddsoddiad seilwaith sylweddol arnynt, a chyfeiriodd un o'n Haelodau, Dai Lloyd AC, at gais arfaethedig ar y cyd gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru am Bencampwriaethau Pêl-droed Ewrop:

> "you are asking a lot—if we only have one stadium then we rely on the Scots to have seven stadiums, unless we build another Liberty Stadium and another Cardiff City Stadium pretty quickly, as well as all those transport links that you mentioned."[47]

## Galluogi'r sector gwirfoddol i godi arian

54. Yn olaf, nodasom fod digwyddiadau mawr yn gyfle i bartneriaid sector gwirfoddol gynhyrchu arian. Rhoddodd Tenovus gryn lawer o fanylion inni am fanteision ei gysylltiad â Chwpan Ryder, gan egluro o safbwynt codi arian ei fod yn rhagweld, erbyn diwedd y bartneriaeth, y byddai wedi codi oddeutu £400,000 a oedd wedi:

> "enabled the funding of services that wouldn't otherwise have been possible, such as to fund the world's first cancer support unit."[48]

55. Dywedodd Tenovus hefyd y gallai'r cysylltiadau a grëwyd drwy ei gysylltiad â Chwpan Ryder arwain at godi arian yn y tymor hwy, a'u bod wedi cynyddu ymwybyddiaeth o'r elusen a hefyd o beryglon canser. Eglurodd yr elusen wrthym ei bod, drwy ei phartneriaeth â Chwpan Ryder, wedi gallu:

> "talk to men directly and ask them, 'Have you thought about checking yourself out? Have you got any concerns about

[46] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 18/3/10, Para 128 a 133
[47] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 11/2/10, Para 101
[48] Tenovus, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 08

> cancer?' Those are the people that tend not to go to the doctor and tend not to talk about cancer and, therefore, get diagnosed late. So, by enabling us to work directly with the public, even if we did not raise any money at the Wales Open it would mean that we are still fulfilling our objectives."[49]

56. Credwn fod gwerth arbennig mewn cael mudiadau sector gwirfoddol yn gweithio mewn partneriaeth â threfnwyr digwyddiadau chwaraeon mawr, ac ym 4[edd] bennod yr adroddiad hwn, 'Gweithio mewn Partneriaeth', rydym wedi ystyried sut y gellir meithrin perthnasoedd o'r fath sydd o fudd i'r naill ochr a'r llall yn well.

57. I gloi, rydym o'r farn fod tystiolaeth ein hymchwiliad yn awgrymu bod digwyddiadau chwaraeon mawr yn gallu gael amrywiaeth eang o fanteision posibl.  Credwn na fydd y manteision hyn yn deillio'n awtomatig o unrhyw ddigwyddiad mawr, ond yn hytrach gellir cynyddu'r potensial drwy i ddigwyddiadau ganolbwyntio'n strategol ar amcanion neilltuol, a thrwy i Lywodraeth Cymru wneud penderfyniadau dethol, doeth, seiliedig ar bolisi, ynglŷn â pha ddigwyddiadau y bydd yn eu cefnogi yn y lle cyntaf.  Credwn fod y casgliadau hyn yn rhoi grym i'r angen am strategaeth digwyddiadau mawr, a ystyrir ym mhennod 2.

---

[49] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 4/3/10, Para 157

# 2. Yr angen am strategaeth digwyddiadau mawr yng Nghymru

## Yr angen am strategaeth digwyddiadau mawr

58. Cytunai amrywiaeth eang o dystion fod angen strategaeth digwyddiadau mawr, ac y byddai o fudd i Gymru. Er enghraifft, argymhellai Cyngor Caerdydd "the Welsh Government needs to identify a commitment to major events in Wales through an Events Strategy."[50] Yn yr un modd, haerai Undeb Hoci Cymru:

> "there is so much happening and yet it is all in little pockets all over the place. Everybody, independently, is trying to do the right thing... it is almost as though we need a single mindset about what we are trying to achieve and then go and do it."[51]

59. Roeddem yn falch fod y sylwadau hyn yn ôl pob golwg wedi cael eu derbyn gan Lywodraeth Cymru, gyda'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth yn nodi:

> "There is a consensus in the evidence that we as a Government have to be more strategic and better co-ordinated in the way in which we respond to these bids."[52]

60. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, roeddem yn falch felly fod Llywodraeth Cymru, ar 7 Ebrill 2010, wedi lansio ymgynghoriad ar ei strategaeth digwyddiadau mawr ddrafft, a nodwyd yn 'Digwyddiadau yng Nghymru - Datblygu Strategaeth Digwyddiadau Mawr i Gymru'.

61. Fodd bynnag, awgrymodd tystiolaeth ein tystion nifer o themâu posibl hefyd i'r strategaeth hon:

- y dylai fod yn fodd i ddatblygu calendr tymor hir o ddigwyddiadau, i osgoi gwrthdaro o ran amseru;
- dylai fanylu ar bwrpas penodol rhoi cymorth i ddigwyddiadau, gan ddarparu meini prawf drwy hynny i'w defnyddio gan Lywodraeth Cymru i benderfynu a ddylid cefnogi digwyddiadau unigol ai peidio;

---

[50] Cyngor Caerdydd, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 18
[51] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 14/1/10, Para 100.
[52] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 12/3/10, Para 12

- dylai gwmpasu amrywiaeth eang o ddigwyddiadau (yn cynnwys rhai llai);
- dylai ddarparu manylion clir am sut y byddai cymorth yn cael ei roi i ddigwyddiadau, a bod yn fodd i ddatblygu capasiti yng Nghymru;
- dylai alluogi Llywodraeth Cymru ei hun i fod yn rhagweithiol yn datblygu calendr o ddigwyddiadau;
- dylai alluogi digwyddiadau i fod yn gynaliadwy yn amgylcheddol;
- dylai sicrhau bod gan ddigwyddiadau eu hunain strategaeth ôl-ddigwyddiad.

62. Rydym wedi ystyried y themâu hyn, mewn perthynas â'r dystiolaeth a roddwyd inni gan dystion a hefyd mewn perthynas ag ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch 'Digwyddiadau yng Nghymru - Datblygu Strategaeth Digwyddiadau Mawr i Gymru'.

## Bod yn fodd i ddatblygu calendr tymor hir, ond hyblyg, o ddigwyddiadau

63. Un peth yr oedd y tystion yn amlwg yn teimlo'n gryf ynglŷn ag ef oedd y dylai'r strategaeth fod yn fodd i ddatblygu calendr o ddigwyddiadau mawr, i osgoi'r posibilrwydd o wrthdaro o ran amseru. Er enghraifft, argymhellodd Cymdeithas Bêl-droed Cymru y dylai Llywodraeth Cymru:

> "paint a calendar as to what is available or what could be available and… ensure that we do not conflict with other major governing bodies, because we make a decision to try to host, for example, the Champions' League final in 2015, but then discover that golf is doing something that year. We need a co-ordinated approach that allows for some large-scale events to come to this country and then we can look forward to the next large-scale event, whether it is the Ryder Cup, the Champions' League final or something else."[53]

64. Yn yr un modd, rhybuddiodd Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu:

[53] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 11/2/10, Para 114

> "the lack of a national strategy could lead to an ad hoc approach with the potential for dates to clash and venues to compete. An awareness of the types of events which the Welsh Assembly Government would want to prioritise would also help planners."[54]

65. Rydym felly yn croesawu bwriad Llywodraeth Cymru, y cyfeirir ato yn 'Digwyddiadau yng Nghymru – Datblygu Strategaeth Digwyddiadau Mawr i Gymru' i ddatblygu "calendr cenedlaethol o ddigwyddiadau mawr."[55]

66. Fodd bynnag, nid yw dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru yn nodi'r cyfnodau amser a fwriedir i galendr o'r fath, nac i ba raddau y câi ei ddiweddaru. Gwnaeth ein tystion awgrymiadau penodol ar y naill a'r llall o'r materion hyn, gyda chytundeb cyffredinol y dylai calendr o'r fath gael ei drefnu fel ei fod yn helpu cynllunio tymor hir. Er enghraifft, dywedodd Cymdeithas Bêl-droed Cymru:

> "When the delegation from the Union of European Football Associations comes here next week, I will not be talking about hosting the European championship final in the next two years, I will be talking about the next three to seven years."[56]

67. Yn wir, dywedodd Cymdeithas Chwaraeon Cymru fod calendr sy'n edrych ymhell i'r dyfodol yn gwbl bosibl, gan haeru:

> "It is not beyond anybody's wit to have a calendar for the next 15 years showing what events are possible within Wales, what level of support they would need and what they would bring into Wales."[57]

68. Fodd bynnag, nododd Undeb Rygbi Cymru hefyd y byddai angen i unrhyw galendr o'r fath fod yn ddigon hyblyg i gynnwys datblygiadau tymor byr, sy'n cael eu hysgogi yn aml gan ddigwyddiadau y tu allan i fyd chwaraeon:

> "We have agreed a schedule of activity, within the stadium and outside, up until 2019. The Rugby World Cup will be in New Zealand in 2011, it will be in England and Wales in 2015, and in Japan in 2019. So, we have planned all this already. That is

---

[54] Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 01
[55] Llywodraeth Cymru, 'Digwyddiadau yng Nghymru – Datblygu Strategaeth Digwyddiadau Mawr i Gymru, 2010-2020,' 7 Ebrill 2010, Para 8.1
[56] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 11/2/10, Para 114
[57] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 11/2/10, Para 143

> long-term planning. The challenge for us is that the horizons for rock concerts are not long term. For instance, we announced Paul McCartney this week and he will be playing the stadium on 26 June."[58]

69. Credwn y byddai'n werthfawr i galendr cenedlaethol arfaethedig Llywodraeth Cymru o ddigwyddiadau mawr gael ei gynllunio ar sail tymor hir. Fodd bynnag, credwn hefyd ei bod yn dyngedfennol nad yw'r bwriad i edrych ymhell i'r dyfodol wrth baratoi calendr o'r fath yn golygu na ellir cydnabod – a rhoi cymorth o bosibl i – ddigwyddiadau na ellir eu trefnu a'u cadarnhau ond ar sail tymor byrrach.

**Argymhelliad 1: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynllunio'i chalendr cenedlaethol o ddigwyddiadau mawr (yn cynnwys digwyddiadau chwaraeon mawr) ar sail 10-15 mlynedd. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i ddiweddaru'r calendr hwn ar sail hyblyg.**

## Galluogi Llywodraeth Cymru ei hun i fod yn rhagweithiol wrth ddatblygu calendr digwyddiadau

70. Dywedodd ein tystion hefyd y byddai'n dda o beth pe bai Llywodraeth Cymru yn mynd ati'n rhagweithiol i ddatblygu calendr digwyddiadau. Yn arbennig, yng nghyswllt Uned Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru, awgrymodd Cwpan Ryder Cymru fod angen iddi:

> "be empowered to look four or five years ahead to see which events are on the horizon that fit with Wales's needs and ambitions, and that the private sector can get behind, whether in the field of arts, sports, or any other, to try to do the best for Wales in the very competitive events market around the world."[59]

71. Yn yr un modd, haerodd Undeb Rygbi Cymru:

> "the early identification of mutually beneficial major sporting events and support to contract them at the Stadium with its stated advantages would benefit the whole of Wales. Work now underway to align the WRUG and WAG must continue and be

[58] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 4/3/10, Para 71-72
[59] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 11/2/10, Para 54

strengthened in future to achieve the required levels of cooperation."[60]

72. Rydym felly yn croesawu datganiad Llywodraeth Cymru y bydd ei fframwaith asesu yn:

> "be used proactively to research and identify events which Wales can develop, attract or bid for."[61]

73. Byddem yn croesawu agwedd 'gallwn, fe allwn ni' gan Lywodraeth Cymru wrth symud ymlaen â phrosiectau, ac wrth weithio gyda grwpiau chwaraeon a threfnwyr digwyddiadau sy'n cael eu cefnogi neu'u cymeradwyo gan yr Uned Digwyddiadau Mawr. Credwn y dylai'r Uned Digwyddiadau Mawr fod yn rhagweithiol yn chwilio am syniadau newydd am ddigwyddiadau chwaraeon mawr, ac y dylai weithio'n bositif i gefnogi digwyddiadau o'r fath wrth iddynt geisio symud ymlaen. Credwn y bydd gweithredu'n rhagweithiol felly yn helpu Llywodraeth Cymru yn fwy effeithiol i wireddu ei hystod eang o amcanion polisi, yn cynnwys y bwriad i gynyddu proffil cenedlaethol Cymru.

## Darparu manylion am bwrpas penodol rhoi cymorth i ddigwyddiadau

*"what do we want from events and what are we expecting? Do we want greater participation or more tourism?"*[62]

- Cymdeithas Chwaraeon Cymru

74. Fel y dywedwyd ym mhennod 1, roedd ein tystion yn cytuno'n fras y gallai gwahanol ddigwyddiadau o bosibl gyflawni amcanion gwahanol. Haerai Cyngor Chwaraeon Cymru:

> "There are different types of events that have different rationales. For example, if you are to host the London marathon, or the Cardiff marathon, the rationale would be based on getting certain numbers of people to take part, so there would be a big participation element. If you are talking about bringing the Heineken Cup final to Wales, that is an event for spectators, which generates a different kind of economic benefit. They both generate benefits in their own

[60] Undeb Rygbi Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 10
[61] Llywodraeth Cymru, 'Digwyddiadau yng Nghymru – Datblygu Strategaeth Digwyddiadau Mawr i Gymru, 2010-2020,' 7 Ebrill 2010, Para 5.2
[62] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 11/2/10, Para 128

> ways, but they will have different secondary impacts depending on participation, spectator profile, the branding of Wales, and so on."[63]

75. Ar y sail y gall gwahanol ddigwyddiadau gyflawni amcanion gwahanol, dywedodd nifer o dystion fod angen amcan strategol trosfwaol clir, neu set o amcanion, yn sail i gefnogaeth Llywodraeth Cymru i ddigwyddiadau mawr. Er enghraifft, haerodd Cyngor Chwaraeon Cymru:

> "the rationale needs to be clarified in terms of why we want major events, because many organisations out there, be they public or third sector, have had thoughts, views and ideas about what they would possibly like to do, but because the rationale is not clear, it is difficult to develop any sort of bid or package or to plan for that."[64]

76. Yn yr un modd, haerodd Cymdeithas Chwaraeon Cymru:

> "The Welsh Assembly Government should have a clear, transparent and consistent approach to Major Events in Wales. Currently there is some support from WAG for sporting events in Wales via the Major Events unit; however this appears to be "ad hoc" with no clear guidelines or criteria as to which events are supported and it seems to have inadequate financial resources. A clearly understood and available policy is needed, with information ranging from major events to events for minority sports."[65]

77. Cydymdeimlwn â'r pryderon hyn, a chroesawn ymdrechion Llywodraeth Cymru i ymdrin â nhw drwy geisio darparu "fframwaith asesu clir a thryloyw ar gyfer dethol digwyddiadau i'w cefnogi."[66]

78. Rydym hefyd yn cydnabod y gall ehangder y fframwaith asesu, y manylir arno yn nogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru (sy'n cynnwys 23 o feini prawf asesu ar ffurf pwyntiau bwled, yn cyd-fynd â 7 maes polisi Cymru'n Un), ddenu beirniadaeth am nad yw'n rhoi un cyfeiriad strategol o ran pwrpas polisi cefnogi digwyddiadau mawr. Yn ateb i'r cwestiwn ai'r bwriad wrth gefnogi digwyddiadau yw cynyddu

---

[63] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 28/1/10, Para 18
[64] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 28/1/10, Para 38
[65] Cymdeithas Chwaraeon Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3)-3-10, Papur 3.
[66] Llywodraeth Cymru, 'Digwyddiadau yng Nghymru – Datblygu Strategaeth Digwyddiadau Mawr i Gymru, 2010-2020,' 7 Ebrill 2010, Para 8.1

twristiaeth ynteu gyfranogiad (er enghraifft), dywedodd Llywodraeth Cymru y bydd yn:

> "ceisio cael cydbwysedd priodol o ran buddsoddi mewn digwyddiadau sy'n cynnig manteision economaidd sylweddol a'r rheini a fydd yn dod â manteision cymdeithasol-economaidd."[67]

79. O ystyried amcanion eang eu cwmpas Llywodraeth Cymru, credwn ei bod yn briodol fod ei chefnogaeth i ddigwyddiadau drwyddi draw wedi'i bwriadu i gyflawni set eang o amcanion, yn hytrach na chanolbwyntio ar gyflawni un amcan trosfwaol.

80. Fodd bynnag, mae'r awgrym yn yr ymgynghoriad y bydd disgwyl i ddigwyddiadau – yn cynnwys digwyddiadau twf, bach – gyflawni ystod eang o amcanion yn unigol yn peri pryder inni. Er bod y ddogfen ymgynghori'n dweud na fydd rhaid i ddigwyddiadau sy'n ceisio cymorth gan Lywodraeth Cymru 'dicio pob blwch', dywed y bydd disgwyl iddynt:

> "ddarparu tystiolaeth sy'n dangos yn glir fod y gallu ganddynt i sicrhau nifer o ganlyniadau ar draws sawl maes."[68]

81. Dangosodd y dystiolaeth yn ein pennod gyntaf nad yw manteision posibl digwyddiadau chwaraeon mawr yn rhai awtomatig, ac mai'r ffordd orau o'u gwireddu yw drwy i ddigwyddiadau mawr ganolbwyntio'n strategol ar amcanion penodol. Fel y cyfryw, rydym yn bryderus, os oes gofyn i rai digwyddiadau – yn enwedig digwyddiadau 'twf' bach – gyflwni llawer o amcanion gwahanol, er mwyn cael cymorth, y gallent o bosibl gyflawni ychydig yng nghyswllt pob amcan, pan allent fod wedi cyflawni rhywbeth mwy sylweddol pe baent yn canolbwyntio ar lai o amcanion. Cytunwn â sylwadau Cyngor Chwaraeon Cymru ei bod yn dyngedfennol fod trefnwyr digwyddiadau yn glir ynglŷn â'r hyn yw:

> "key objective of the major event... (whether it is to increase sports participation, volunteering, improve facilities, regenerate

[67] Llywodraeth Cymru, 'Digwyddiadau yng Nghymru – Datblygu Strategaeth Digwyddiadau Mawr i Gymru, 2010-2020,' 7 Ebrill 2010, Para 5.4
[68] Llywodraeth Cymru, 'Digwyddiadau yng Nghymru – Datblygu Strategaeth Digwyddiadau Mawr i Gymru, 2010-2020,' 7 Ebrill 2010, Para 5.1

communities etc), and to ensure that this is built into the planning process."[69]

82. Yn yr un modd, haerodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru "a clear understanding of the major priority [of an event] will ensure focus of effort is appropriately channelled."[70]

83. Po fwyaf o amcanion a roddir i ddigwyddiad, credwn ei bod yn fwy tebygol y bydd y broses gynllunio'n mynd yn aneffeithiol. Yn arbennig, dangosodd Ysgol Fusnes Caerdydd fod digwyddiadau y pennir amryw o amcanion iddynt yn anochel yn gorfod rheoli blaenoriaethau sy'n gwrthdaro, gan ddweud:

> "What the London Organising Committee for the Olympic Games will want for the Olympics is an absolutely smooth-running, sparkling, international-class operation whereby the VIPs, the athletes and the Olympic family are all looked after to the nth degree, and the same for the spectators. What the Department for Culture, Media and Sport and the London boroughs of Newham and Hackney want is mass participation—in volunteering, for example—by their most deprived, most excluded, largely ethnic minority populations. Those two things, given how far some of those populations are from the happy clappy, customer-facing needs of the Olympics, are not very easy to reconcile in some cases. Even on the social and economic sides, you have these tensions, and, if you ignore them, what you tend to end up with is the nice, smiley faces."[71]

84. Yn amlwg, gellir rheoli blaenoriaethau o'r fath sy'n gwrthdaro yn well drwy gydgysyltu a chyfathrebu rhwng y gwahanol bartneriaid sy'n ymwneud â rheoli digwyddiad. Rydym hefyd yn ymwybodol y bydd digwyddiadau mawr yn golygu mwy o bartneriaid cyllido, a fydd efallai ag "entirely different objectives for supporting the event."[72] Yn wir, credwn fod ymwneud partneriaid cyllido ychwanegol yn beth cadarnhaol, gan gydnabod tystiolaeth UK Sport fod gweithredu yn y ffordd hon "typically adds complexity, but helps minimise risk."[73]

---

[69] Cyngor Chwaraeon Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3)-02-10 Papur 1.
[70] Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 25
[71] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 28/1/10, Para 123
[72] UK Sport, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 28
[73] UK Sport, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 28

85. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod tystiolaeth Ysgol Fusnes Caerdydd fod rhai digwyddiadau unigol yn llai effeithiol o'u hanfod wrth ymgyrraedd at amcanion penodol:

> "I always found it difficult to talk about the branding benefits of the Wales Rally GB when Jane Davidson, and Carwyn Jones before her, were pushing Wales towards a path of sustainable development, which is all about lower impact and low carbon."[74]

86. Credwn mai'r ffordd fwyaf effeithiol efallai o geisio cyflawni set eang o amcanion trosfwaol yw drwy edrych ar ddigwyddiadau mawr fel grŵp. Gyda'i gilydd, gall y grŵp hwn o ddigwyddiadau mawr gyflawni amrywiaeth eang o amcanion polisi. Fodd bynnag, dim ond nifer fach o brif amcanion y byddai gofyn i ddigwyddiadau unigol yn y grŵp hwn eu cyflawni. Credwn y bydd hwn yn ddull mwy effeithiol na mynnu bod pob digwyddiad yn cyflawni pob amcan. Credwn y cefnogir yr haeriad hwn gan dystiolaeth Ysgol Fusnes Caerdydd, a ddywedodd:

> "The error that we have made in the past in Wales was being very reactive—which you have to be, to some degree—in going after events that we thought that we could win, without necessarily thinking wider. The Ryder Cup is a great example. It is a global event, and it is very unusual for Wales to be in a position to win it. So, we went for it and then had to shoehorn a lot of work on, say, golf tourism and the renewal of golf clubs into the Ryder Cup strategy. That is the wrong way to do it irrespective of whether you think the Ryder Cup is an event to hold here or not. The right way to do it is what the Welsh Assembly Government is now moving towards, namely that of having a major events unit that has a set of objectives in the economic, social and cultural spheres, and it will try to put together a set of events over a period of time that fulfils different roles in that objective set."[75]

87. Wrth edrych ar ddigwyddiadau mawr fel grŵp, yn hytrach nag ar sail unigol, fesul digwyddiad, credwn y gallai digwyddiadau twf, llai, fod mor effeithiol weithiau â digwyddiadau mawr yn cyflawni amcanion penodol, gan eu bod yn gallu bod yn fwy hyblyg a chost effeithiol. Yn ein pennod gyntaf, nodasom werth posibl cydgysylltu digwyddiadau

---

[74] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 28/1/10, Para 143
[75] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 28/1/10, Para 139

‘twf’, llai, yn strategol a’u trefnu i gyd-fynd â digwyddiadau mwy. Nodwn hefyd dysiolaeth Cymdeithas Chwaraeon Cymru:

> “smaller sports could hold events in smaller towns—I use Upper Cwmtwrch as an example, for my sins—where such an event would be a major one, and one in which everyone could be involved.”[76]

88. Rydym am sicrhau felly nad yw pobl o dan yr argraff na fydd arian cyhoeddus yn cael ei roi i gefnogi digwyddiadau ‘twf’, llai, os gallant gynrychioli gwerth am arian cyhoeddus wrth hyrwyddo amcanion unigol o eiddo Llywodraeth Cymru. Wrth wneud yr haeriad hwn, nodwn y pryderon gan nifer o dystion nad yw’r sbectrwm digwyddiadau sy’n cael cymorth ar hyn o bryd yn ddigon eang, gyda Chyngor Bwrdeistref Conwy yn nodi:

> “Our understanding is that WAG [the Welsh Government] currently supply money to only the uppermost events in Wales.”[77]

**Argymhelliad 2: Rydym yn argymell nad yw Llywodraeth Cymru yn gwerthuso a wnaiff gefnogi digwyddiad chwaraeon mawr ar sail sawl maen prawf polisi gwahanol y bernir y byddai’r digwyddiad yn ei gyflawni. Yn hytrach, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwerthuso a fydd yn cefnogi digwyddiad chwaraeon mawr ai peidio ar sail faint o gynnydd y bydd digwyddiad yn ei wneud yn erbyn ei brif amcan(ion) polisi a, thrwy hynny, werth am arian y digwyddiad.**

89. Wrth wneud yr argymhelliad hwn, rydym yn arbennig o awyddus i sicrhau na ddylai cefnogaeth i ddigwyddiadau twf, llai (a allai olygu costau llai i’r pwrs cyhoeddus), ddibynnu o reidrwydd ar iddynt gyflawni canlyniadau ar draws amrywiaeth eang o feysydd polisi, os gallant ddarparu canlyniadau sylweddol yn erbyn set benodol o brif ganlyniadau polisi.

**Argymhelliad 3: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi neges glir y gall, ac y bydd yn, cefnogi digwyddiadau chwaraeon llai (a allai fod yn rhai ‘mawr’ yng nghyd-destun eu camp eu hunain) hyd yn oed os nad ydynt yn denu nifer enfawr o**

[76] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 11/2/10, Para 120
[77] Cyngor Bwrdeistref Conwy, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 19

**wylwyr a chynulleidfaoedd teledu enfawr, os gall digwyddiadau o'r fath gyflawni amcanion polisi penodol o eiddo Llywodraeth Cymru.**

90. Wrth wneud yr argymhelliad hwn, rydym yn sylweddoli y gallai'r gefnogaeth benodol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, i ddigwyddiadau chwaraeon llai, fod o anghenraid yn wahanol o ran graddfa a'r adnoddau a neilltuir i'r gefnogaeth a roddir i ddigwyddiadau chwaraeon mawr, o bwys.@

## Darparu manylion clir am sut y câi digwyddiadau eu cefnogi

91. Awgrymodd nifer o'n tystion hefyd y gallai strategaeth Llywodraeth Cymru ddarparu eglurder ynglŷn â pha gymorth y gallai Llywodraeth Cymru ei ddarparu i helpu cyrff chwaraeon i reoli Digwyddiadau Mawr.

92. Yn arbennig, roedd nifer o dystion o'r farn, er bod cyllid i ddigwyddiadau bob amser o gymorth, fod cyngor ac arweiniad ymarferol weithiau yn fwy gwerthfawr. Er enghraifft, dywedodd Cymdeithas Chwaraeon Cymru:

> "We are not clear about what we offer governing bodies to support them with events. That is not only about money because some governing bodies will do something very small with a very small budget, but we need to offer them some support with logistics. Some governing bodies have only one person or no people working for them and if they want to run an event, they need help centrally from someone to tell them how to get television rights, how to undertake a risk assessment and how to deal with the legislation and everything else that comes into it."[78]

93. Yn yr un modd, haerodd Cyngor Chwaraeon Cymru:

> "There are many legal issues that have to be overcome, along with rights issues in terms of television coverage and so on. There are also health and safety issues to consider and legislation that needs to be complied with. Many organisations in Wales, whether governing bodies of sport or other third

[78] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 11/2/10, Para 128

sector organisations in the arts area, do not have that expertise to be able to deliver those events."[79]

94. Mae'n werth nodi i Glwb Criced Morgannwg nodi meysydd lle gellid bod wedi gwella'i reolaeth o Gêm Brawf y Lludw 2009 ymhellach, pe bai wedi gallu manteisio ar fwy o arbenigedd technegol a chyngor ynghylch arferion da cyn y digwyddiad. Awgrymodd y clwb, pe bai Uned Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru yn gallu darparu hyn:

> "It would probably make the existing events a bigger success… Maybe, looking back on it, we did miss a bit of a trick to promote Wales a little bit earlier than we could have, but we learn and, going forward, we would certainly like to improve on that."[80]

95. Yn olaf, argymhellodd Undeb Hoci Cymru fod angen i Gymru alluogi:

> "A collective approach to reducing risk and maximising benefit by drawing on expertise from a centrally provided unit with the knowledge, contacts and 'door opening' capability."[81]

96. Credwn y gallai'r Uned Digwyddiadau Mawr ddarparu arbenigedd technegol, a chyngor ynghylch arferion da, i gynyddu gallu cyrff chwaraeon sydd am reoli digwyddiadau mawr.

97. Credwn y gallai arbenigedd o'r fath helpu trefnwyr digwyddiadau i wneud penderfyniadau effeithiol pa un a ydynt am ymgymryd â'r lefelau risg sy'n gysylltiedig â rheoli digwyddiadau mawr. Wrth wneud yr haeriad hwn, nodwn dystiolaeth gan Undeb Hoci Cymru fod cynnal digwyddiadau mawr, yn arbennig yn yr hinsawdd economaidd bresennol, "is financially a high risk activity. The less commercial the sport, the greater the risk."[82]

98. Rydym, felly, yn croesawu sylwadau Llywodraeth Cymru y bydd yn "provide strategic advice and guidance to event owners and organisers" ac yn cydgysylltu:

> "a more professional and systematic approach to event planning, management and delivery, helping to create an

---

[79] Llywodraeth Cymru, 'Digwyddiadau yng Nghymru – Datblygu Strategaeth Digwyddiadau Mawr i Gymru, 2010-2020,' 7 Ebrill 2010, Para 6.4
[80] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 4/3/10, Para 137
[81] Undeb Hoci Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 03
[82] Undeb Hoci Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 03

environment that encourages the sharing of skills and specialist knowledge."[83]

99. Credwn y gallai'r Uned Digwyddiadau Mawr ddarparu ffynhonnell ganolog o gyngor ymarferol (ar ddelio ag asesiadau risg, deddfwriaeth, arferion da, cysylltiadau allweddol, ac ati), a ddylai fod ar gael ac o fewn cyrraedd hwylus i bob trefnydd digwyddiadau. O gofio y gall cyngor o'r fath chwarae rhan dyngedfennol yn y penderfyniad a yw trefnwyr digwyddiadau posibl yn mynd ati i gynnal digwyddiadau yn y lle cyntaf, credwn ei bod yn dyngedfennol y bydd cyngor o'r fath yn hygyrch i bawb, yn hytrach na dim ond i'r rhai y mae Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu cymorth ariannol iddynt yn ffurfiol. Rhagwelwn y byddai'r gwasanaeth cynghori canolog hwn yn cael ei ddarparu drwy wefan Digwyddiadau Mawr bwrpasol, a thrwy gyswllt uniongyrchol â'r Uned Digwyddiadau Mawr. Rydym hefyd yn rhagweld y gellid mynd ati'n rhagweithiol i ddarparu rhyw fath o gyngor 'mwy cynhwysfawr' i ddigwyddiadau mawr y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cefnogi'n ariannol.

**Argymhelliad 4: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro y bydd trefnwyr digwyddiadau mawr yng Nghymru yn gallu manteisio ar ffynhonnell ganolog o arweiniad a chyngor ymarferol ar reoli digwyddiadau mawr.**

100. Credwn y dylai cyngor o'r fath gynnwys – er na fydd o reidrwydd wedi'i gyfyngu i – reoli risg, materion deddfwriaethol, cysylltiadau allweddol ac arweiniad ar weithio gyda phartneriaid eraill (yn cynnwys darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus), arferion da yn gyffredinol, a manteision datblygu strategaeth ôl-ddigwyddiad i bob digwyddiad. Credwn y dylai cyngor o'r fath fod ar gael i bawb sy'n trefnu digwyddiadau, nid dim ond i'r rhai y mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi dyfarnu arian iddynt. Credwn y dylai'r cyngor hwn hefyd reoli disgwyliadau'r rhai sy'n ymgeisio am gyllid o broses benderfynu'r Uned Digwyddiadau Mawr, ac y gallai o bosibl ddarparu siart llif o'r camau a'r amserlenni perthnasol.

101. Credwn y dylai'r ffynhonnell ganolog hon o gyngor ac arweiniad gael ei gwneud mor hygyrch â phosibl, ac y gellid hwyluso hyn drwy geisio cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r Uned Digwyddiadau Mawr a'i rôl.

---

[83] Llywodraeth Cymru, 'Digwyddiadau yng Nghymru – Datblygu Strategaeth Digwyddiadau Mawr i Gymru, 2010-2020,' 7 Ebrill 2010, Para 6.4

**Argymhelliad 5: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ceisio cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r Uned Digwyddiadau Mawr a'i rôl.**

## Galluogi Digwyddiadau Cynaliadwy

102. Codwyd mater cynaliadwyedd gan sawl tyst yn yr ymchwiliad hwn. Nododd Ysgol Fusnes Caerdydd:

> "there is always going to be tension between the environmental impact and the economic impact. The way to deal with that is to have appropriate event management that places sustainability at its heart so that, where big negatives—in terms of the environment—are identified they can be mitigated, as far as is possible."[84]

103. Roeddem yn falch fod fframwaith asesu Llywodraeth Cymru, sydd i'w weld yn 'Digwyddiadau yng Nghymru – Datblygu Strategaeth Digwyddiadau Mawr i Gymru,' yn cynnwys nifer o feini prawf yn gysylltiedig â'i thema bolisi, 'Amgylchedd cynaliadwy.' Yn arbennig, rydym yn croesawu cyflwyno'r maen prawf "dangos cynnydd tuag at gyrraedd safon BS8901 ar gyfer Rheoli Digwyddiadau'n Gynaliadwy".[85]

## Sicrhau bod gan ddigwyddiadau eu hunain strategaeth ôl-ddigwyddiad

104. Yn olaf, awgrymodd llawer o dystion wrthym y dylai Strategaeth Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru danlinellu mor bwysig ydyw fod gan ddigwyddiadau unigol eu strategaeth ôl-ddigwyddiad eu hunain. Er enghraifft, haerodd Undeb Badminton Cymru:

> "Success of the aftermath of major event is dependent upon a post event strategy being formulated along with sufficient funding ring fenced to take it forward."[86]

105. Codwyd pryder tebyg gan Gyngor Caerdydd, a bwysleisiodd:

> "The importance of planning and resourcing in advance, ring-fencing budgets to deliver legacy projects, and the need for speedy decision making."[87]

[84] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 28/1/10, Para 169
[85] Llywodraeth Cymru, 'Digwyddiadau yng Nghymru – Datblygu Strategaeth Digwyddiadau Mawr i Gymru, 2010-2020,' 7 Ebrill 2010, Para 5.1
[86] Undeb Badminton Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 04

106. Credwn ei bod yn dyngedfennol fod strategaethau ôl-ddigwyddiad – gorau oll gyda chyllid ac adnoddau etifeddol priodol yn gefn iddynt – yn cael eu cynnwys mewn unrhyw gais am ddigwyddiad mawr, gan nodi tystiolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru:

> "There is no point in bidding for major events and hosting them if there is no long-term legacy plan in place. I am extremely passionate about that. The organisations that I have worked for have long talked about legacies as opposed to short-term objectives. Unfortunately, I could give you countless examples of where they have not been put in place."[88]

107. O ganlyniad, rydym yn croesawu datganiad Llywodraeth Cymru, yn 'Digwyddiadau yng Nghymru – Datblygu Strategaeth Digwyddiadau Mawr i Gymru', ei bod yn bwysig:

> "bod impact ac ôl-effaith y digwyddiad yn cael ei ystyried yn llawn ac yn rhan ganolog o'r broses gynllunio o'r cychwyn cyntaf".[89]

108. Fodd bynnag, credwn y byddai'n werthfawr i Lywodraeth Cymru ddatgan yn benodol y bydd gofyn i ddigwyddiadau mawr, fel un o'r gofynion er mwyn cael cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru, fod â strategaeth ôl-ddigwyddiad.

**Argymhelliad 6: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datgan yn benodol y bydd gofyn i ddigwyddiadau chwaraeon mawr sy'n ceisio cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru gynnwys strategaeth ôl-ddigwyddiad.**

109. Credwn y dylai'r arian ar gyfer strategaethau o'r fath gael ei neilltuo iddynt.

---

[87] Cyngor Caerdydd, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 18
[88] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 11/2/10, Para 111
[89] Llywodraeth Cymru, 'Digwyddiadau yng Nghymru – Datblygu Strategaeth Digwyddiadau Mawr i Gymru, 2010-2020,' 7 Ebrill 2010, Para 5.1

## 3. Yr Uned Digwyddiadau Mawr

110. Tynnodd nifer o'n tystion sylw at waith da yr uned. Er enghraifft, dywedodd Cwpan Ryder Cymru wrthym fel y mae'r uned:

> "works closely with Visit Wales and International Business Wales. Effectiveness is maximised when it cooperates fully with other partners (e.g. local authorities)"[90]

111. Yn yr un modd, dywedodd Clwb Hwylio Pwllheli Sailing Club wrthym, yng nghyd-estun cynnal Pencampwriaethau Cenedlaethol y DU ganddynt:

> "this general success would not have been possible without the support of the WAG Major Events Unit."[91]

112. Disgrifiodd Clwb Criced Morgannwg yntau, yn y cyfnod yn arwain at Gêm Brawf y Lludw 2009:

> "Visit Wales helped with marketing across the city. On the other side, Gwilym Evans [Major Events Unit] tried to attract more children to play cricket in Wales through a cricket in the community programme. So, over the three years in the build-up to the match, we were in contact with two departments in the Assembly."[92]

113. Serch hynny, disgrifiodd rhai tystion anawsterau o ran cysylltu â'r uned i ddechrau, gydag Undeb Hoci Cymru yn disgrifio fel y bu iddo gysylltu â'r Uned Digwyddiadau Mawr ar ôl i Dwrnamaint Dynion Tlws Hoci Cenhedloedd Ewrop 2009 gael ei ddyfarnu iddo, ond:

> "It seemed as though we were having to make all the running; possibly from three perspectives – we were 'late' in the cycle of consideration, although a major event in hockey it was not a major event in commercial term's and the MEU was finding its feet. We had to commit resources before funding was confirmed and received payment retrospectively."[93]

114. Credwn y dylai ein trydydd argymhelliad, sef y dylai'r Uned Digwyddiadau Mawr geisio darparu cyngor ac arweiniad i bawb sy'n trefnu digwyddiadau, helpu i fynd i'r afael â hyn. Yn ein pumed

---

[90] Cwpan Ryder Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 07
[91] Clwb Hwylio Pwllheli Sailing Club, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 17
[92] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 4/3/10, para 89
[93] Undeb Hoci Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 03.

bennod, rydym hefyd wedi ystyried proses gyllido Llywodraeth Cymru, gan ein bod yn cydnabod bod taliadau ôl-weithredol yn gallu cynyddu'r risg sydd ynghlwm i gyrff chwaraeon wrth reoli digwyddiadau chwaraeon mawr. Credwn hefyd, wrth i rôl yr uned digwyddiadau mawr ddatblygu, y gallai fod o werth i'r uned ystyried defnyddio system 'perchennog achos'. Byddai system o'r fath yn sicrhau bod trefnwyr digwyddiadau yn adnabod unigolyn penodol yn yr uned sy'n bennaf gyfrifol am ddarparu cyngor a chefnogaeth yng nghyswllt digwyddiad neilltuol.

115. Awgrymwyd ffyrdd posibl o wella gwaith yr Uned Digwyddiadau Mawr hefyd gan ein tystion. Er enghraifft, awgrymodd amryw o dystion y gallai'r uned ddod â gwahanol gyrff ynghyd i rannu arferion da. Argymhellodd Cymdeithas Bêl-droed Cymru y dylai Llywodraeth Cymru

> "use its powers to bring together the major sporting governing bodies in Wales, who are likely to be able to attract major events on a regular basis to share ideas."[94]

116. Yn yr un modd, argymhellodd Cwpan Ryder Cymru, "the unit needs to be able… to draw upon the experience of bodies that have successfully staged events."[95] Yn wir, roedd Railfuture yn argymell na ddylai fforymau o'r fath gael eu cyfyngu i gyrff llywodraethu chwaraeon, gan awgrymu:

> "the Welsh Government could consider establishing a forum of both statutory and non statutory bodies to share experiences. This forum must be representative of disabled, young persons and family groups."[96]

117. Rydym felly yn croesawu haeriad Llywodraeth Cymru y byddai'n "gweithio'n agos gydag amrywiaeth o bartneriaid a grwpiau rhanddeiliaid yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector".[97]

118. Credwn mai un dull penodol o hyrwyddo partneriaethau, ac o alluogi cyrff i rannu arferion da, fyddai drwy hwyluso seminar blynyddol, dan oruchwyliaeth yr Uned Digwyddiadau Mawr.

---

[94] Cymdeithas Bêl-droed Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 11
[95] Cwpan Ryder Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 07
[96] Railfuture, tystiolaeth ysgrifenedig, CC (3) MSE 15
[97] Llywodraeth Cymru, 'Digwyddiadau yng Nghymru – Datblygu Strategaeth Digwyddiadau Mawr i Gymru, 2010-2020,' 7 Ebrill 2010, Para 6.5

**Argymhelliad 7: Rydym yn argymell bod Uned Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru yn hwyluso rhannu arferion da, a gweithio mewn partneriaeth yng nghyswllt rheoli digwyddiadau mawr, drwy seminar blynyddol.**

119. Credwn y byddai'r seminar hwn yn agored i, er nad o reidrwydd wedi'i gyfyngu i, awdurdodau lleol, y cyfryngau, elusennau, cwmnïau sector preifat, cyrff chwaraeon a darparwyr trafnidiaeth.

120. Rydym hefyd yn pryderu, yn yr hinsawdd economaidd bresennol, y gallai'r cyllid i'r Uned Digwyddiadau Mawr gael ei leihau'n sylweddol. Er ein bod yn gwerthfawrogi'r angen i wneud arbedion, mae'r ffaith nad yw'r uned ond prin allan o'i babandod yn gwneud inni gredu y gallai gostyngiad yn ei chyllid gael mwy o effaith arni hi o ran dod yn fwy effeithiol nag ar unedau sydd wedi ennill eu plwyf yn well.

**Argymhelliad 8: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud ymrwymiad cyhoeddus y bydd yn ceisio cynnal y lefel bresennol o leiaf o gyllid i'r uned digwyddiadau mawr.**

# 4. Gweithio mewn Partneriaeth

121. Dywedodd amryw o dystion eu bod wedi cael profiadau da yn gweithio mewn partneriaeth yn y gorffennol, o ran rheoli digwyddiadau chwaraeon mawr. Er enghraifft, tanlinellodd Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu fanteision cyfarfodydd grŵp partneriaeth amlasiantaeth, manteision arddull plismona sy'n canolbwyntio ar y gymuned, a'i hawydd i fod yn rhan o gynlluniau i ddod â digwyddiadau i Gymru yn y dyfodol. Yn yr un modd, disgrifiodd Tenovus fel yr oedd ei "partnership with Ryder Cup Wales has been fantastic, given the demographic that it has opened up for us."[98] Disgrifodd yr elusen fel yr oedd ei phartneriaeth â Chwpan Ryder wedi ei galluogi i godi swm sylweddol o arian, wedi cynyddu ymwybyddiaeth o'r elusen, ac wedi ennyn cysylltiad â phobl o broffil demograffig eang.

122. Yn yr un modd, dywedodd Trenau Arriva Cymru fod cynnwys amryw o bartïon yn "the pre and post event planning sessions that ATW participate in following each major Millennium Stadium event"[99] yn ymarfer da. Ategwyd y dystiolaeth hon gan sylwadau Passenger Focus:

> "a series of meetings in 2006/7 with key rail industry stakeholders (including Arriva Trains Wales, First Great Western, Network Rail, Welsh Assembly Government and the British Transport Police)... led to a number of improvements such as the better sharing of forward calendar information."[100]

123. Fodd bynnag, tynnwyd sylw hefyd at broblemau'n ymwneud â gweithio mewn partneriaeth, neu ddiffyg gweithio mewn partneriaeth, gyda Railfuture yn codi pryderon nad oedd yn gwybod am "no evidence of active planning for the use of public transport for the Ryder Cup."[101] Clywsom rybudd hefyd gan Gwpan Ryder Cymru bod "the conflicting priorities of partner organisations... can delay sports participation projects unnecessarily"[102] os ydynt yn cael eu rheoli'n aneffeithiol.

124. Awgrymodd tystion y gallai Llywodraeth Cymru, neu'n fwy penodol ei Huned Digwyddiadau Mawr, roi sylw i'r problemau hyn, gan

[98] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 4/3/10, Para 167
[99] Trenau Arriva Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 06
[100] Passenger Focus, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 02
[101] Railfuture, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 15
[102] Cwpan Ryder Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 07

ddod â phartneriaid posibl ynghyd (yn cynnwys adrannau llywodraeth ganolog, awdurdodau lleol, y cyfryngau, elusennau, cwmnïau sector preifat, cyrff chwaraeon, darparwyr trafnidiaeth) yn gynnar yn y broses o gynllunio digwyddiadau.

125. Argymhellodd sawl tyst ragor o gyfathrebu ag awdurdodau lleol ynglŷn â photensial a phwspas digwyddiadau chwaraeon mawr. Er enghreifft, dywedodd Cyngor Bwrdeistref Conwy, "strengthened communication with Local Authorities would be a positive way forward,"[103] tra galwodd Cyfeiriannu Cymru ar i Lywodraeth Cymru gyfleu "the message across to local councils that major sporting events bring money and wider benefits to the community."[104] Yn y cyd-destun hwn, roeddem yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i "archwilio cyfleoedd ar gyfer gweithio mewn dull consortiwm wrth gydweithio â llywodraeth leol lle bynnag y bo hynny'n addas."[105] Roeddem hefyd yn croesawu haeriad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru "it is reasonable to expect that the local authority would lead grass roots activity"[106] os darperir adnoddau priodol iddo yn strategol.

**Argymhelliad 9: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, mewn consortiwm ag awdurdodau lleol, yn datblygu canllawiau ar rôl bosibl awdurdodau lleol yn galluogi digwyddiadau mawr.**

126. Rhagwelwn y byddai canllawiau o'r fath yn canolbwyntio ar effeithiau cadarnhaol posibl digwyddiadau chwaraeon mawr, mewn perthynas ag amcanion polisi, a'r sialensiau sy'n gysylltiedig â hynny. Rhagwelwn y câi canllawiau o'r fath eu diweddaru yng ngoleuni canfyddiadau ymchwil briodol a gwerthusiadau o ddigwyddiadau chwaraeon mawr ar lefel llywodraeth ganolog a llywodraeth leol.

127. Yn fwy eang, credwn y gall Llywodraeth Cymru chwarae rhan bwysig yn dod â phartneriaid posibl ynghyd, ac felly croesawn ei haeriad y bydd "yn mynd ati i sefydlu partneriaethau cryf ac effeithiol ar draws ffiniau daearyddol, sefydliadol a sectoraidd."[107] Credwn y gall yr Uned Digwyddiadau Mawr hyrwyddo'r amcan hwn, drwy ddarparu ffynhonnell ganolog o arweiniad i drefnwyr digwyddiadau mawr, yn

[103] Cyngor Bwrdeistref Conwy, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 19
[104] Cyfeiriannu Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 21
[105] Llywodraeth Cymru, 'Digwyddiadau yng Nghymru – Datblygu Strategaeth Digwyddiadau Mawr i Gymru, 2010-2020,' 7 Ebrill 2010, Para 6.6
[106] Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 25
[107] Llywodraeth Cymru, 'Digwyddiadau yng Nghymru – Datblygu Strategaeth Digwyddiadau Mawr i Gymru, 2010-2020,' 7 Ebrill 2010, Para 6.5

cynnwys cyngor ar weithio gyda phartneriaid eraill. Credwn hefyd ei bod yn werthfawr i Lywodraeth Cymru ei hun weithio mewn partneriaeth â chyrff fel UK Sport, a bod ei hadran yn mabwysiadu dull cydgysylltiedig o ymdrin â digwyddiadau chwaraeon mawr.

128. Nodwn hefyd i nifer o randdeiliaid argymell gwerth creu partneriaethau â'r cyfryngau wrth hyrwyddo digwyddiadau chwaraeon mawr. Er enghraifft, argymhellodd Estyn hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth ag "other agencies, including the media, to promote the benefits of physical activity and the impact of hosting major sporting events."[108]

**Argymhelliad 10: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried ffyrdd o weithio gyda'r cyfryngau i hyrwyddo agweddau cadarnhaol digwyddiadau chwaraeon mawr a'r ffigyrau amlycaf ym maes chwaraeon.**

[108] Estyn, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 09

# 5. Cyllido

129. Gan fod cylch gwaith ein hymchwiliad yn canolbwyntio ar strwythurau ehangach, prosesau cynllunio, cydgysylltu a threfnu gweithgareddau yng nghyd-destun cefnogaeth Llywodraeth Cymru i Ddigwyddiadau Chwaraeon Mawr, nid aethom ati i geisio tystiolaeth pa un a ddylai'r cyllid a roddir i sefydliadau neilltuol – neu drefnwyr a phartneriaid digwyddiadau mawr – gael ei gynyddu neu ei leihau. O ganlyniad, er i dystion godi pryderon o'r fath,[109] rydym wedi penderfynu na fyddai'n bosibl inni roi ystyriaeth sydd wedi'i seilio'n ddigonol ar dystiolaeth i'r mater hwn.

130. Fodd bynnag, tynnodd ein tystion sylw hefyd at ddau fater ehangach sy'n peri pryder o ran y broses o benderfynu a ddylid rhoi cyllid i ddigwyddiadau chwaraeon mawr:

- y broses weinyddol o wneud cais am gyllid
- neilltuo arian yn y gyllideb

## Y broses weinyddol o wneud cais am gyllid

131. Cododd Undeb Hoci Cymru gwestiynau ynglŷn â'r lefel o fiwrocratiaeth yng Nghymru er mwyn cael cyllid, gan ddisgrifio'i brofiad o orfod rhwymo adnoddau i'r diben o reoli digwyddiad cyn i'r cyllid gael ei gadarnhau, a dywedodd iddo wedyn gael y cyllid hwn yn ôl-weithredol. Cymharodd hyn â'r broses symlach er mwyn cael:

> "some money from UK Sport following a submission I made on two pages of paper. They asked some questions, they awarded us the money, it came in, we told them what we were doing with it and that was the end of it. Since then, we have given them a short report. That was £10,000."[110]

132. Yn yr un modd, roedd Clwb Criced Carmel o'r farn, "funding [for their EuroTwenty20 event] was not as easily accessible when compared to the flexible approach of other agencies."[111] Galwodd Cyngor Caerdydd am "speedy decision making processes… particularly when

---

[109] Er enghraifft, dywedodd Undeb Rygbi Cymru: "The impact of the WRU and its Stadium on the economy, culture and communities of Wales should be more accurately reflected through direct financial assistance when the benefits are clearly identified." Undeb Rygbi Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3)-04-10 Paper 1.
[110] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 14/1/10, Para 80
[111] Clwb Criced Carmel, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 27

there is competition from other destinations."[112] Rydym yn cydnabod gwerth sicrhau bod y baich biwrocrataidd ar sefydliadau sy'n gwneud cais am gyllid yn cael ei leihau i'r eithaf lle mae hynny'n bosibl. Credwn y gallai argymhelliad 3 o'r adroddiad hwn ymdrin â hynny, gan y dylai sicrhau bod cyrff llai, sy'n gwneud ceisiadau am gyllid ar gyfer digwyddiadau, yn gallu canolbwyntio ar sut y byddant yn cyflawni set lai o bosibl o brif amcanion. Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, fod angen cael y gwerth gorau am arian cyhoeddus, ac yn wir mae argymhelliad 4 o'r adroddiad hwn yn dweud ein bod o'r farn fod rhaid i bob digwyddiad sy'n cael arian cyhoeddus allu manylu ar ei strategaeth ôl-ddigwyddiad.

**Argymhelliad 11: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'i phroses benderfynu, o ran archwilio ceisiadau am gymorth ariannol i gynnal digwyddiadau chwaraeon mawr, yn rheolaidd gyda golwg ar gael gwared ag unrhyw faich biwrocrataidd diangen ar ymgeiswyr.**

133. Credwn y dylai'r broses benderfynu alluogi cyllid i gael ei ddarparu cyn cynnal digwyddiadau mawr, yn hytrach na mynnu bod trefnwyr digwyddiadau yn ei dderbyn yn ôl-weithredol, sy'n gallu golygu risg fawr i sefydliadau bach.

134. Rydym hefyd o'r farn fod rhaid i Weinidogion barhau i fod yn atebol am benderfyniadau ynglŷn â dyrannu (neu beidio â dyrannu) cyllid cyhoeddus tuag at ddigwyddiadau chwaraeon mawr. Ni chredwn y dylai swyddogion fod yn llwyr gyfrifol am gymeradwyo neu wrthod ceisiadau am gyllid i ddigwyddiadau mawr.

**Argymhelliad 12: Rydym yn argymell y dylai Gweinidogion Cymru barhau i fod yn atebol am benderfynu ar gymorth ariannol, neu ddiffyg cymorth ariannol, i ddigwyddiadau chwaraeon mawr.**

135. Wrth gadw'r atebolrwydd hwn, byddem hefyd yn croesawu diweddariad blynyddol gan Lywodraeth Cymru, ar ffurf un ai ddatganiad ysgrifenedig neu ddatganiad llafar i gyfarfod llawn, ar gynnydd a gwaith yr Uned Digwyddiadau Mawr, fel bod modd craffu ar Lywodraeth Cymru yng nghyd-destun gwaith o'r fath.

[112] Cyngor Caerdydd, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 18

## Eglurder ynglŷn â neilltuo arian yn y gyllideb

136. Gofynnodd Cyngor Caerdydd am fwy o eglurder ynglŷn â'r dyraniadau yn y gyllideb i ddigwyddiadau mawr, gan gwestiynu:

> "The commitment to existing Major Events that tie up the resources for the Major Event Unit budget. It is not clear as to whether or not the budget for these events will be ring fenced for sporting events after their existing commitments. Without this commitment it is difficult to make long term plans."[113]

137. Credwn fod eglurder tymor hir ynglŷn â'r gyllideb a ddyrennir i Ddigwyddiadau Chwaraeon Mawr yn amlwg yn werthfawr fel bod modd cynllunio yn y tymor hwy. Rhagwelwn y bydd argymhelliad 9 o'r adroddiad hwn, sy'n galw am weithredu ar ffurf consortiwm i ddatblygu canllawiau ar rôl bosibl awdurdodau lleol yn galluogi digwyddiadau mawr, fynd i'r afael â'r pryder hwn.

138. Pwysleisiodd tystion eraill wrthym bwysigrwydd darparu cyllid digonol, wedi'i neilltuo, ar gyfer strategaethau ôl-ddigwyddiad. Er enghraifft, dywedodd Cyngor Caerdydd:

> "The level of funding generated by Wimbledon is significant but doesn't filter back into Tennis Development until many months later. A front loading of resources would make a significant impact particularly in Local Authorities… [The Ryder Cup] Legacy Fund is an example of good practice that needs to be considered when offering funding support to Major Events."[114]

139. Yn yr un modd, mynegodd Cyngor Bwrdeistref Conwy bryder bod y gostyngiad parhaus yng nghyllidebau digwyddiadau yn aml yn achosi i drefnwyr digwyddiadau "concentrat[e] on providing the event and not putting effort into the community they are providing the event for."[115] Cytunai Cwpan Ryder Cymru fod cyllid digonol, cynaliadwy, i ddigwyddiad Cwpan Ryder ei hun, a'r gwaith a fydd yn dilyn wedyn, "has been a key factor for success during the lifetime of the Ryder Cup project."[116]

140. Credwn fod neilltuo arian ar gyfer strategaethau ôl-ddigwyddiad yn enghraifft o ymarfer da, a chredwn y dylai hynny gael ei fabwysiadu

---

[113] Cyngor Caerdydd, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 18
[114] Cyngor Caerdydd, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 18
[115] Cyngor Bwrdeistref Conwy, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 19
[116] Cwpan Ryder Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 07

gan drefnwyr digwyddiadau.  Credwn y dylai'r egwyddor hon gael ei hyrwyddo drwy argymhellion 4 a 6 o'r adroddiad hwn.

# 6. Seilwaith

## Cyfleusterau

141. Tanlinellodd ein tystion mor bwysig yw bod y cyfleusterau sydd yng Nghymru yn barod yn denu digwyddiadau chwaraeon mawr. Er enghraifft, nododd Undeb Rygbi Cymru werth Stadiwm y Mileniwm oherwydd ei "iconic status as a symbol of Wales… [as] one of the ten biggest visitor attractions in the United Kingdom."[117] Yn yr un modd, tanlinellodd Cyngor Bwrdeistref Conwy rôl "new facilities, such as the development at Eirias Park"[118] yn codi proffil Cymru fel lleoliad i gynnal digwyddiadau chwaraeon mawr ynddo. Credwn fod gan Gymru gyfleusterau ar hyn o bryd lle gellir cynnal digwyddiadau chwaraeon mawr, a chytunwn â haeriad Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu:

> "The Welsh Assembly Government produced a very useful Olympics 2012 brochure which highlighted the range of sporting facilities available across Wales. This brochure is worthy of greater marketing within Wales and internationally not just focussing on the Olympics but the wider future role of venues for other sporting events."[119]

**Argymhelliad 13: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i hyrwyddo ymwybyddiaeth, yng Nghymru ac yn rhyngwladol, o'r amrywiaeth o gyfleusterau chwaraeon sydd eisoes ar gael yng Nghymru fel lleoliadau posibl i ddigwyddiadau chwaraeon yn y dyfodol.**

142. Fodd bynnag, nododd ein tystion hefyd wendidau yn y ddarpariaeth seilwaith yn ddaearyddol ar draws Cymru, gydag Undeb Badminton Cymru yn nodi, ym maes Badminton, bod "lack of real top class facilities makes it difficult to attract… events."[120] Yn ur un modd, nododd Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu:

> "The technical aspects of some major sports do require specialist venues but it remains the case that many people in North and mid Wales are unable to witness live major events because of the distance barrier. A means of overcoming this

[117] Undeb Rygbi Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 10
[118] Cyngor Bwrdeistref Conwy, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 19
[119] Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 01
[120] Undeb Badminton Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 04

> would be to diversify the range of major sporting events held in Wales."[121]

143. Argymhellodd Cymdeithas Chwaraeon Cymru hithau, "events should be geographically spread."[122]

144. Credwn y dylai sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi mwy o amrywiaeth o ddigwyddiadau, yn cynnwys rhai digwyddiadau 'twf' llai a digwyddiadau 'unigryw', helpu i fynd i'r afael â'r pryderon hyn. Wrth wneud yr haeriad hwn, nodwn sylwadau Ysgol Fusnes Caerdydd ei bod yn rhesymol sicrhau bod yr ystod o ddigwyddiadau a gefnogir wedi'u gwasgaru'n ddaearyddol, gan nodi y bydd rhai digwyddiadau:

> "will be small, such as the National Eisteddfod of Wales, which will never be a big export earner for Wales but is very important culturally, so you have a tick in your cultural box, and possibly have a tick in your north Wales box, if you have a spatial disaggregation."[123]

## Trafnidiaeth a Seilwaith Ategol

145. Tanlinellodd cyfranwyr wrthym hefyd bwysigrwydd cefnogi seilwaith (trafnidiaeth a llety yn arbennig) wrth ddenu digwyddiadau mawr i Gymru. Yn wir, awgrymodd sawl tyst fod diffygion yn y ddarpariaeth seilwaith o'r fath yng Nghymru wedi effeithio'n sylweddol ar allu Cymru i gynnal digwyddiadau mawr ac ar ei henw da yn hynny o beth. Er enghraifft, dywedodd Cymdeithas Bêl-droed Cymru:

> "to maximise the possibility of Wales attracting major events the Welsh Assembly Government must look very seriously at the infrastructure in Wales which sadly is lacking in a number of major areas. Wales has only one international airport and Cardiff International has only limited scheduled flights utilising this facility i.e. KLM. Apart from Amsterdam there are no other hubs linking for international flights and no direct flights to Heathrow. The road structure between the airport and the major cities and M4 is also inadequate, in the sense that it is a single carriage way and not a dual carriage-way. This is not attractive to large amounts of spectators arriving/departing for major events. The rail network has also experienced

[121] Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, tystiolaeth ysgrifenedig, CC (3) MSE 01
[122] Cymdeithas Chwaraeon Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 05
[123] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 28/2/10, Para 140

difficulties with major events taking place at the Millennium Stadium, especially when the event finishes after the last train services has departed. The number of quality hotels in Wales i.e. 4 or star is few in number and this also can be a barrier against attracting worldwide events to the principality especially when major sponsors etc. cannot be accommodated properly. To overcome these difficulties WAG needs to start a process of funding to bring Wales up to the standard of other major European Countries."[124]

146. Eglurodd Cymdeithas Bêl-droed Cymru fod pryderon ynglŷn â seilwaith ategol Cymru yn golygu nad oedd yn debygol y gellid:

> "stag[e] the UEFA Champions' League final… I can read you a very long checklist that includes visits to all of the appropriate things that they will want to see, which includes the airport, the infrastructure, parking and hotels... The visiting dignitaries will be looking for appropriate five-star accommodation, and will be looking to ensure that the airport infrastructure is capable of handling the numbers needed and that the city and its infrastructure can cater for the 40,000 fans who will probably be arriving within the space of 48 hours."[125]

147. Yn yr un modd, dywedodd PassengerFocus wrthym ei fod yn aml yn cael:

> "complaints from passengers, both formally and informally, about some of the difficulties involved in accessing sporting events at the Millennium Stadium. These complaints most commonly relate to the crowding of rail services on event days and the length of queues to access them, while disruption caused by engineering works and/or infrastructure problems have also featured on a number of occasions."[126]

148. Mae'n amlwg yn bwysig sicrhau cyd-drefnu a chyfathrebu rhwng darparwyr trafnidiaeth a threfnwyr digwyddiadau, gan gydnabod y straen y gall digwyddiadau mawr ei rhoi ar y rhwydwaith trafnidiaeth, yn enwedig gan na fydd digwyddiadau hwyr yn cyd-fynd â'r amserlenni trafnidiaeth gyhoeddus yn awtomatig. Wrth wneud yr haeriad hwn, nodwn sylwadau Trenau Arriva Cymru:

---

[124] Cymdeithas Bêl-droed Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 11
[125] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 11/2/10, Para 83
[126] PassengerFocus, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 02

> "some organisers make little or no effort to inform us of their event or important aspects such as expected crowd. We would note as good practice that through the excellent working relationship we have with the Millenium Stadium, ATW are normally well informed by them of forthcoming events… However, even with the close liaison with the Millenium Stadium issues still arise. While the primary concern of the Millenium Stadium appears towards its commercial interests (and often this relates to events being scheduled for the convenience of Television), it is regrettable that the National Stadium for Wales does not seem to have an obligation towards facilitating public transport use for its events."[127]

149. Cytunai Cymdeithas Bêl-droed Cymru nad yw cyd-drefnu'r ddarpariaeth drafnidiaeth yn broses gyflym, a bod angen cryn drafod a chyfathrebu. Yng nghyswllt gêm bêl-droed gyfeillgar Cymru yn Abertawe ar 3 Mawrth, dywedodd:

> "We have received a number of inquiries from fans who are planning to travel down from Cardiff regarding their irritation that the last train home will have already left before the final whistle is blown. We have been working with Arriva Trains to ensure that more trains are put on, but that is a long and slow process. I can understand from Arriva's point of view that it is not easy to put on another train, as opposed to just driving down the road."[128]

150. Credwn ei bod o'r pwys pennaf fod trefnwyr digwyddiadau a darparwyr trafnidiaeth yn cyfathrebu â'i gilydd yn gynnar yn y broses o gynllunio digwyddiadau chwaraeon mawr. Credwn y dylai arferion da o ran materion rheoli trafnidiaeth gael eu hyrwyddo, gan nodi tystiolaeth gan Railfuture:

> "There are/have been good examples of shuttle bus services between railway stations and event locations. Although these have not been for sporting events they can be replicated for sporting venues. An annual shuttle bus service operates from Builth Road station to the Royal Welsh showground. Other services have operated between Newport station and Ebbw Vale for the Garden Festival and between Swansea station and

[127] Trefnau Arriva Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 06
[128] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 11/2/10, Para 82

> Morriston for the National Eisteddfod. The railway operators have great experience in operating rail replacement services at times of service disruption for engineering work."[129]

151. Credwn y dylai argymhelliad 3 o'r adroddiad hwn helpu i ymdrin â'r angen i drefnwyr digwyddiadau a darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus gyfathrebu a chyd-drefnu eu gweithgarwch yn gynnar yn y broses o gynllunio digwyddiadau chwaraeon mawr. Credwn hefyd y dylai argymhelliad 5 o'r adroddiad hwn helpu i hyrwyddo arferion da, fel yr enghraifft a roddwyd gan Railfuture. Heb ddymuno cynyddu'r baich biwrocrataidd ar sefydliadau, rydym hefyd yn credu y gallai proses Llywodraeth Cymru wrth wahodd ceisiadau am gyllid annog sefydliadau i ystyried partneriaethau â darparwyr trafnidiaeth a mudiadau gwirfoddol.

152. Fel y nodwyd ym mhennod gyntaf yr adroddiad, credwn ei bod yn bwysig sicrhau bod buddsoddi mewn seilwaith trafnidiaeth yn briodol i anghenion tymor hir ardaloedd yng Nghymru, yn hytrach na buddsoddi'n unswydd i bwrpas un digwyddiad chwaraeon mawr. Wrth wneud yr haeriad hwn, nodwn dystiolaeth gan Ysgol Fusnes Caerdydd:

> "what we have to do is make sure that future investments are appropriate. In terms of infrastructure development, mountain biking is a perfect example: if the Olympics could have been used to develop a looped mountain-biking track at Margam I would have been in favour of it, because that would have been very heavily used. It is very close to the M4 and public transport links and it would have been part of a swathe of facilities across south Wales that would form a world-class offer. In that case, there is no argument for not having Olympic mountain biking in Wales. In other cases, the argument is much weaker."[130]

153. Fodd bynnag, credwn hefyd – ar lefel sylfaenol – y byddai budd mawr o wella'r ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus i bobl Cymru, nid er mwyn mynd i ddigwyddiadau mawr, ond er budd y cyhoedd yn gyffredinol. Wrth wneud yr haeriad hwn, cytunwn â'r argymhellion a wnaed cyn hyn ym mis Ionawr 2010 gan Bwyllgor Menter a Dysgu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ei adroddiad ar Seilwaith Rheilffyrdd

---

[129] Railfuture, tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) MSE 15
[130] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 28/1/10, Para 128 a 160

Cymru yn y Dyfodol. Yn arbennig, argymhellodd y Pwyllgor Menter a Dysgu:

> "y dylai Llywodraeth Cymru geisio pwerau sy'n gyfatebol i bwerau Llywodraeth yr Alban, ynghyd â'r cyllid perthnasol, naill ai drwy ddiwygio Deddf Rheilffyrdd 2005 neu drwy ddulliau deddfwriaethol priodol eraill. Rydym yn argymell hefyd y dylai Llywodraeth Cymru barhau i gyflwyno achos clir dros barhau i fuddsoddi yng Nghymru drwy'r grŵp cynllunio ar gyfer y cyfnod Manyleb Allbwn Lefel Uchel nesaf (2014-19)... Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio cyfle'r asesiad adolygu perfformiad pum mlynedd nesaf o fasnachfraint Cymru a'r Gororau (Trenau Arriva Cymru) i geisio gwneud gwelliannau ar gyfer teithwyr rheilffyrdd a sicrhau gwell gwerth am arian cyhoeddus. Rydym yn argymell ymhellach bod y Llywodraeth yn sefydlu partneriaeth o amgylch bwrdd gyda'r consortia trafnidiaeth rhanbarthol i archwilio sut y byddai modd o wella'r masnachfraint."[131]

154. Yn ychwanegol at yr argymhellion a wnaed gynt gan y Pwyllgor hwn, credwn y dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad strategol o leoliadau ar gyfer digwyddiadau mawr. Wrth wneud yr haeriad hwn, credwn y byddai adolygiad o'r fath yn ystyried trafnidiaeth i Stadiwm y Mileniwm, ond byddai hefyd yn ystyr trafnidiaeth i fannau eraill yng Nghymru – ac yn wir i rannau eraill o'r DU, megis Llundain, y ddinas lle cynhelir Gemau Olympaidd 2012.

**Argymhelliad 14: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad strategol o hygyrchedd lleoliadau posibl ar gyfer digwyddiadau chwaraeon mawr yng Nghymru, drwy drafnidiaeth gyhoeddus.**

[131] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Menter a Dysgu, Seilwaith Rheilffyrdd Cymru yn y Dyfodol, Ionawr 2010, Para 99 a 101.

## Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r sesiynau tystiolaeth lafar yn http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-ccc-home.htm

*14 Ionawr*

| | |
|---|---|
| Mike Leatt, Prif Swyddog Gweithredol | Undeb Hoci Cymru |
| Eddie O'Neill, Swyddog Gweithredol | Cymdeithas Badminton Cymru |

*28 Ionawr*

| | |
|---|---|
| Dr Huw G Jones, Prif Weithredwr | Cyngor Chwaraeon Cymru |
| Sarah Powell, Pennaeth Perfformiad a Rhagoriaeth | Cyngor Chwaraeon Cymru |
| Dr Calvin Jones, Darlithydd mewn Economeg | Ysgol Fusnes Caerdydd |

*11 Chwefror*

| | |
|---|---|
| John Jermine, Cadeirydd | Cwpan Ryder Cymru 2010 Cyf. |
| Rob Holt, Prif Weithredwr | Cwpan Ryder Cymru 2010 Cyf |
| Jonathan Ford, Prif Weithredwr | Cymdeithas Bêl-droed Cymru |
| Anne Ellis, Cadeirydd | Cymdeithas Chwaraeon Cymru |
| Robert James, Cyfarwyddwr a Phrif Swyddog Gweithredol Nofio Cymru | Cymdeithas Chwaraeon Cymru |

*4 Mawrth*

| | |
|---|---|
| Roger Lewis, Prif Weithredwr | Undeb Rygbi Cymru |
| Tim Burton, Pennaeth Gweithrediadau Grŵp | Undeb Rygbi Cymru |
| John Williams, Pennaeth Cyfathrebu | Undeb Rygbi Cymru |
| Alan Hammer, Prif Weithredwr | Clwb Criced Morgannwg |

| | |
|---|---|
| Alison Upton, Pennaeth Corfforaethol Codi Arian a Digwyddiadau | Tenovus |
| Richard Nicholls, Cyfarwyddwr Codi Arian a Marchnata | Tenovus |
| Ieuan Wyn Jones AC, Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Alun Ffred Jones AC, Gweinidog dros Dreftadaeth | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Arthur Emyr, Pennaeth Marchnata Digwyddiadau Mawr | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Gwilym Evans, Rheolwr Digwyddiadau Mawr a'r Gemau Olympaidd | Llywodraeth Cynulliad Cymru |

## Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-ccc-home.htm

| *Enw* | *Sefydliad* | *Cyfeirnod* |
|---|---|---|
| Anthony Matthias, Swyddog Cyswllt yr Heddlu | Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu Cymru | CC(3) MSE 01 |
| Simon Pickering, Rheolwr Passenger Link | Passenger Focus | CC(3) MSE 02 |
| Mike Leatt, Prif Swyddog Gweithredol | Undeb Hoci Cymru | CC(3) MSE 03 |
| Eddie O'Neill, Swyddog Gweithredol | Undeb Badminton Cymru | CC(3) MSE 04 |
| Anne Ellis, Cadeirydd | Cymdeithas Chwaraeon Cymru | CC(3) MSE 05 |
| Michael Vaughan, Pennaeth y Fasnachfraint a Rheoli Rhanddeiliaid | Trenau Arriva Cymru | CC(3) MSE 06 |
| Rob Holt, Prif Weithredwr | Cwpan Ryder Cymru 2010 Ltd | CC(3) MSE 07 |
| Alison Upton, Pennaeth Corfforaethol Codi Arian a Digwyddiadau | Tenovus | CC(3) MSE 08 |
| Angharad Reed, AEM | Estyn | CC(3) MSE 09 |
| Roger Lewis, Prif Weithredwr | Undeb Rygbi Cymru | CC(3) MSE 10 |
| Jonathan Ford, Prif Weithredwr | Cymdeithas Bêl-droed Cymru | CC(3) MSE 11 |
| Ieuan Wyn Jones, Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth<br>Alun Ffred Jones, Gweinidog dros Dreftadaeth | Llywodraeth Cynulliad Cymru | CC(3) MSE 12 |

| | | |
|---|---|---|
| Dr Huw G Jones, Prif Weithredwr | Cyngor Chwaraeon Cymru | CC(3) MSE 13 |
| Dr Calvin Jones, Darlithydd mewn Economeg | Ysgol Fusnes Caerdydd | CC(3) MSE 14 |
| Rowland Pittard, Ysgrifennydd Cangen De Cymru | Railfuture (Railway Development Society Ltd) | CC(3) MSE 15 |
| Chris Jenkins, Cyfarwyddwr | Cyngor Cymru ar gyfer Gemau'r Gymanwlad | CC(3) MSE 16 |
| Bob Lowe, Cadeirydd, Pwyllgor Digwyddiadau | Clwb Hwylio Pwllheli | CC(3) MSE 17 |
| Steve Morris, Rheolwr Chwaraeon Caerdydd | Cyngor Caerdydd | CC(3) MSE 18 |
| Rachael Gill, Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | CC(3) MSE 19 |
| Aliya Mohammed | Rhwydwaith Menywod o Leiafrifoedd Ethnig Cymru | CC(3) MSE 20 |
| Judith Powell | Cymdeithas Gyfeiriannu Cymru | CC(3) MSE 21 |
| Alan Hammer, Prif Weithredwr | Clwb Criced Morgannwg | CC(3) MSE 22 |
| Martin Couchman, Dirprwy Brif Weithredwr | Cymdeithas Lletygarwch Cymru | CC(3) MSE 23 |
| Marta Bzikot, Swyddog Prosiect | Race Equality First | CC(3) MSE 24 |
| Dr Chris Llewelyn, Cyfarwydwr Dysgu Gydol Oes, Hamdden a Gwybodaeth | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) | CC(3) MSE 25 |
| Hannah Fitzpatrick, Cyfarwyddwr Datblygu Golff – Undeb Golff Cymru | Undeb Golff Cymru a Datblygu Golff Cymru | CC(3) MSE 26 |
| Tim Abraham, Ysgrifennedd Gemau | Clwb Criced Carmel a'r Cylch | CC(3) MSE 27 |
| Simon Morton, Pennaeth Digwyddiadau | UK Sport | CC(3) MSE 28 |